



QAA  
Cymru

# Adolygiad Addysg Uwch: Cymru o Brifysgol Aberystwyth

Ebrill 2016

## Cynnwys

<b>Yr adolygiad yma .....</b>	<b>1</b>
<b>Canfyddiadau allweddol .....</b>	<b>2</b>
Beirniadaethau ASA am Brifysgol Aberystwyth .....	2
Nodweddion o arfer da .....	2
Argymhellion .....	2
Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith.....	2
<b>Ynghylch Phrifysgol Aberystwyth.....</b>	<b>3</b>
<b>Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Aberystwyth.....</b>	<b>4</b>
1 Y Feriniadaeth am: Gosod a chynnal safonau academiaidd y dyfarniadau .....	5
2 Y Feriniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr .....	20
Y canfyddiadau.....	20
3 Y Feriniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu .....	48
4 Y Feriniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr .....	51
5 Sylwadau am Ryngwladoli.....	54
<b>Rhestr termau.....</b>	<b>55</b>

## Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Addysg Uwch: Cymru a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA) ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng 18 a 21 Ebrill 2016 gan dîm o bedwar adolygydd, fel a ganlyn:

- Yr Athro Hastings McKenzie
- Miss Claire Morgan
- Yr Athro Denis Wright
- Miss Sarah Crook (myfyriwr adolygydd).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd archwilio'r addysg uwch a ddarperir gan Brifysgol Aberystwyth a barnu os yw ei safonau a'i hansawdd academaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Y disgwyliadau hyn yw'r datganiadau yng [Nghod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch](#) (y Cod Ansawdd)<sup>1</sup> sy'n nodi'r hyn mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain a chan ei gilydd, yn ogystal â'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Yn yr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru, mae tîm adolygu ASA

- yn gwneud beirniadaethau am
  - y modd y cynhelir safonau academaidd
  - ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
  - yr wybodaeth a ddarperir am ddarpariaeth addysg uwch
  - y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi enghreifftiau o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r darparwr yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Gallwch weld crynodeb o'r canfyddiadau yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 2. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran sy'n cychwyn ar dudalen 4.

Wrth adolygu Prifysgol Aberystwyth, mae'r tîm adolygu hefyd wedi ystyried rhyngwladoli yn thema i'w hadolygu.

Mae gwefan yr ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am yr ASA](#) a'i chenhadaeth.<sup>2</sup> Mae adran benodol yn esbonio'r dull ar gyfer [Adolygiad Addysg Uwch: Cymru](#)<sup>3</sup> ac mae ganddi gysylltau i lawlyfr yr adolygiad a dogfennau gwybodaeth eraill. I gael esboniad o'r termau gwelwch y [Rhestr Termau](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

---

<sup>1</sup> Cyhoeddir Cod Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y DU (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) ar: [www.gaa.ac.uk/quality-code](http://www.gaa.ac.uk/quality-code).

<sup>2</sup> Gwefan ASA: [www.gaa.ac.uk/about-us](http://www.gaa.ac.uk/about-us).

<sup>3</sup> Y gwe-dudalennau am Adolygiad Addysg Uwch: Cymru: [www.gaa.ac.uk/cy/ReviewsAndReports/Pages/Higher-Education-Review-Wales.aspx](http://www.gaa.ac.uk/cy/ReviewsAndReports/Pages/Higher-Education-Review-Wales.aspx).

## Canfyddiadau allweddol

### Beirniadaethau ASA am Brifysgol Aberystwyth

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol Aberystwyth.

- Mae'r gwaith gosod a chynnal safonau academaidd y dyfarniadau'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

### Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o **arfer da** dilynol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

- Y broses cyn cofrestru a chymorth personol a roddir i fyfyrwyr, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu penodol, sy'n hwyluso eu mynediad i'r Brifysgol (Disgwyliad B2).

### Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr **argymhellion** dilynol i Brifysgol Aberystwyth.

Erbyn mis Medi 2016:

- sicrhau cyfranogiad systemataidd myfyrwyr fel partneriaid yn y broses gymeradwyo ac adolygu yn ogystal â gwelliant ym mhrofiad myfyrwyr (Disgwyliadau B5, B1 a B8)
- sicrhau y gweithredir dull cyson ar gyfer apeliadau academaidd o fewn ac ar draws yr athrofeydd (Disgwyliadau B9, B6 a C)
- sicrhau bod holl fyfyrwyr ôl-raddedig ymchwil yn cael hyfforddiant addas cyn ymgymryd ag addysgu ac asesu (Disgwyliadau B11, B3 a B6)
- sicrhau cysondeb yr wybodaeth graidd a ddarperir i fyfyrwyr mewn llawlyfrau o fewn ac ar draws yr athrofeydd (Disgwyliadau C a B9).

Erbyn mis Mawrth 2017:

- atgyfnerthu'r egwyddorion strategol ar gyfer gwella'r cyfleoedd dysgu ar lefel athrofeydd a'u mynegi'n glir (Gwelliant).

### Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith

Mae tîm adolygu'r ASA yn **cadarnhau'r** camau canlynol mae Prifysgol Aberystwyth eisoes yn eu gweithredu i wella'r ddarpariaeth addysgol a gynigir i'w myfyrwyr.

- Y camau sy'n cael eu cymryd i weithredu prosesau adolygu achlysurol ffurfiol ar lefel rhaglenni (Disgwyliad B8).

## Ynghylch Prifysgol Aberystwyth

Sefydlwyd Prifysgol Aberystwyth (y Brifysgol) yn 1872 ac mae'n Brifysgol ganolig ei maint sy'n weithredol mewn ymchwil. Fe'i datganolwyd o Brifysgol Cymru pan gafodd bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yn 2007. Mae'n cynnig ystod eang o bynciau yn y gwyddorau naturiol a ffisegol, gwyddorau cymdeithasol, y dyniaethau, a'r celfyddydau creadigol. Mae'r Brifysgol yn gweithredu'n bennaf o gampysau Penglais a Llanbadarn yn Aberystwyth, ond mae ganddi hefyd safleoedd eraill gan gynnwys yr Hen Goleg a chanolfan ymchwil yng Ngogerddan. Yn 2015, agorodd y Brifysgol gampws ym Mawrisiws, a dechreuwyd addysgu nifer fach o fyfyrwyr yno. Mae datblygiadau pellach ar y gweill.

Mae gan y Brifysgol ychydig dros 7,000 o fyfyrwyr llawn amser, gan gynnwys bron i 500 o fyfyrwyr rhyngwladol. Mae ganddi dros 2,000 o fyfyrwyr rhan amser, gan gynnwys 1,400 o ddysgwyr gydol oes a 630 o fyfyrwyr sy'n dysgu o bell. Mae ychydig llai na 800 o fyfyrwyr llawn amser yn diffinio eu hunain fel bod yn rhugl yn y Gymraeg. Mae gan y Brifysgol ymrwymiad hirhoedlog i'r Gymraeg ac mae'n gweithredu'n ddwyieithog, gan ddefnyddio'r Gymraeg yn helaeth mewn pwyllgorau, ar ei gwefan ac mewn dogfennau mewnol ac allanol. Mae gan y Brifysgol gysylltiadau da â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae'n cynnal cangen o'r Coleg, ac mae wedi cael grantiau i'w galluogi i ddarparu darlithyddiaethau ac ysgoloriaethau.

Mynegir cenhadaeth y Brifysgol yn ei harwyddair hanesyddol - 'Nid byd, byd heb wybodaeth'. Mae chwe maes strategol y canolbwyntir arnynt yn cadarnhau'r arwyddair hwn: creu cyfleoedd, ymchwil â rhagoriaeth sy'n creu effaith, addysgu sy'n ysbrydoli, ymgysylltu â'r byd, gweithio mewn partneriaeth, a buddsoddi yn ein dyfodol.

Mae'r Cynllun Strategol yn mynegi'r blaenoriaethau hyn ac yn nodi targedau ar gyfer 2012-17.

Ers yr adolygiad diwethaf, mae nifer myfyrwyr llawn amser y Brifysgol wedi disgyn o 9,000. Mae hynny'n rhannol o ganlyniad i osod terfyn ar y nifer o fyfyrwyr yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â newidiadau mewn gweithdrefnau derbyn i sicrhau nad yw niferoedd myfyrwyr yn fwy na'r lefel y gellir cynllunio'n gynaliadwy ar eu cyfer. Yn dilyn penodiad Is-ganghellor newydd yn 2011, aeth y Brifysgol ati i ail-strwythuro ei thîm gweithredol, a'i hadrannau academaidd ac anacademaidd. Yn 2013 ffurfiodd y Brifysgol saith athrofa o'i 17 adran academaidd a diddymwyd ei thair cyfadran. Yn 2014 cyfunwyd un o'r athrofeydd â'r lleill. Amcan y Brifysgol yw y bydd y newidiadau hyn yn cynnal ei dyfodol cynaliadwy.

Daw swydd yr Is-ganghellor presennol i ben yn 2016; mae'r Brifysgol wedi penodi'r Dirprwy Is-ganghellor Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol yn Is-ganghellor dros dro.

Mae'r Brifysgol yn ystyried y canlynol ymhlith ei heriau allweddol ar hyn o bryd: cyllido dysgu ac addysgu, addasu i newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Addysg Cymru 2015, ymateb i ganlyniadau Adolygiad Diamond o Gyllido, a recriwtio mewn marchnad gystadleuol.

Mae gan y Brifysgol nifer fach o bartneriaethau, yn bennaf â *Boston Campus Limited*, sy'n darparu cymorth y tu hwnt i addysgu i gampws Mawrisiws, a hefyd gyda Phrifysgol Bangor i ddarparu Canolfan Addysgu Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae gan y Brifysgol drefniant rhyddfrait â Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria ar gyfer cyflwyno gradd sylfaenol ran amser.

Mae'r Brifysgol wedi mynd i'r afael â'r holl argymhellion ers yr adolygiad diwethaf, a werthuswyd gan yr ASA yn 2013.

## Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Aberystwyth

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau'r adolygiad yn fwy manwl.

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn [rhestr termau byr](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau](#) llawnach ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), sydd hefyd ar wefan ASA.

# 1 Y Feriniadaeth am: Gosod a chynnal safonau academaidd y dyfarniadau

**Disgwyliad (A1):** Er mwyn sicrhau safonau academaidd trothwy, mae cyrff dyfarnu graddau:

a) sicrhau bod gofynion y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael eu cyflawni trwy'r camau canlynol:

- gosod eu cymwysterau ar lefel briodol y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglen yn alinio â'r disgrifiydd cymhwyster perthnasol yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- enwi'r cymwysterau yn unol â'r confensiynau teitlo a nodir yn y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch
- dyfarnu cymwysterau i ddynodi cyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglen a ddiffinnir yn eglur

b) ystyried arweiniad yr ASA ar nodweddion cymhwyster

c) lle maent yn dyfarnu credydau'r DU, aseinio gwerthoedd credyd a llunio rhaglenni sy'n alinio â manylebau'r fframwaith credydau cenedlaethol sy'n berthnasol

d) ystyried y Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol.

**Cod Ansawdd, Pennod A1: Pwyntiau Cyfeirio'r DU ac Ewrop ar gyfer Safonau Academaidd**

## Y canfyddiadau

1.1 Mae rheoliadau academaidd, polisïau a phrosesau'r Brifysgol yn gyson â nodweddion dyfarniadau a Datganiadau Meincnod Pwnc y *Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FfCAU), a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Mae'r rheoliadau'n cynnwys rhestr o fathau o ddyfarniadau a'r strwythurau credyd cysylltiedig, sy'n dangos lefel a maint y credydau sy'n gysylltiedig â phob rhaglen. Mae'r Brifysgol yn cymeradwyo dyfarniadau a addysgir ar Lefelau FfCAU 4 i 7. Mae'r rhain yn cynnwys diplomâu a thystysgrifau sydd ar gael fel cymwysterau canolradd i fyfyrwyr sy'n gadael â'r nifer angenrheidiol o gredydau. Mae disgwyl i arholwyr allanol gadarnhau bod safonau'r dyfarniadau yn gyson â safonau sefydliadau cymharol a'r FfCAU. Caiff modiwlau eu graddnodi yn erbyn FfCChC fel rhan o'r broses gymeradwyo.

1.2 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn disgrifio polisïau a phrosesau sicrwydd ansawdd, ac mae ar gael ar dudalennau gwe'r Swyddfa Ansawdd a Chofnodion Academaidd (SAACH). Rhaid i bob cynnig ar gyfer cynlluniau newydd neu gynlluniau wedi'u diwygio gynnwys templed wedi'i gwblhau o fanylebau'r rhaglen, sy'n cynnwys cyfeirnod penodol at y Datganiad Meincnod Pwnc perthnasol a'r lefel academaidd. Mae'r Brifysgol yn gofyn i adrannau sicrhau bod manylebau rhaglenni'n cadw'n gyson â Datganiadau Meincnod Pwnc pan gaiff y Datganiadau eu hadolygu. Byddai rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn caniatáu i Ddisgwyliad A1 gael ei gyflawni.

1.3 Wrth ystyried y Disgwyliad hwn, aeth y tîm adolygu ati i adolygu ystod o ddogfennaeth, gan gynnwys rheoliadau academaidd y Brifysgol; adrannau perthnasol o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd; dogfennaeth gymeradwyo cyrsiau, gan gynnwys manylebau rhaglenni, adroddiadau gan arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig; a dogfennau sy'n perthyn i'r cylchred monitro blynyddol. Profodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau mewn cyfarfodydd â staff y Brifysgol.

1.4 Mae'r Brifysgol yn cyfeirio newidiadau yn y Cod Ansawdd, a chyfeirbwyntiau allanol eraill at adrannau academaidd neu wasanaeth fel sy'n briodol, er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu'r gyson o fewn y disgwyliadau. Gall y Bwrdd Academaidd addasu polisïau'r Brifysgol yn dilyn ymgynghoriad ag is-bwyllgorau a/neu swyddogion perthnasol. Mae'r Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd (PSA) a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil (PGY) wedi adolygu'r Datganiad o Nodweddion Gradd Meistr diwygiedig (2015-16) er mwyn sicrhau bod dyfarniadau'r Brifysgol ar gyfer graddau meistr a addysgir, ymchwil ac integredig yn gyson â'r canllawiau diweddaraf a disgwyliadau'r sector.

1.5 Mae arholwyr allanol ar gyfer cynlluniau a addysgir yn cadarnhau bod safonau dyfarniadau'n gyson â'r FfCAU a'r FfCChC, ac maent yn adrodd yn ôl ar sut mae'r cynnwys, y strwythur a'r canlyniadau dysgu a ddisgrifir ym manylebau'r rhaglen yn adlewyrchu Datganiadau Meincnod Pwnc perthnasol a disgwyliadau cyrff proffesiynol perthnasol, lle bo hynny'n berthnasol.

1.6 Ystyrir adroddiadau arholwyr allanol yn y broses fonitro flynyddol, sydd hefyd yn mynnu bod manylebau rhaglenni'n cael eu diweddarau. Edrychodd y tîm adolygu ar nifer o enghreifftiau o adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig a addysgir, yn ogystal ag adroddiadau o'r cylchred monitro blynyddol, gan gynnwys cynlluniau gweithredu a ystyriwyd yng nghyfarfodydd y PSA, a chanfuwyd eu bod yn cydymffurfio â Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol.

1.7 Mewn cyfarfodydd â'r tîm adolygu, roedd yn amlwg bod staff yn deall y defnydd o gyfeirbwyntiau allanol wrth gynllunio ac adolygu rhaglenni. Mae paneli cymeradwyo'r Brifysgol ar gyfer cyrsiau newydd yn cadarnhau'r defnydd o gyfeirbwyntiau cenedlaethol wrth gynllunio cyrsiau, a phriodolrwydd teitlau a chanlyniadau dysgu'r dyfarniadau arfaethedig. Mae meini prawf y Brifysgol ar gyfer ei dyfarniadau a'i harferion enwi'n alinio â'r FfCAU ac mae'r Brifysgol yn graddnodi pob modiwl yn erbyn FfCChC fel rhan o'r broses gymeradwyo modiwlau.

1.8 Mae'r broses gymeradwyo ac ail-gymeradwyo rhaglenni'n gofyn i baneli wneud sylwadau ar y berthynas rhwng canlyniadau dysgu ar lefel modiwlau a chynllun ynghyd â chadarnhau eu bod yn briodol i lefel y dyfarniad a bod gwerth credydau'n alinio â'r FfCChC.

1.9 Mae'r Brifysgol yn rhoi ystyriaeth deilwng i fframweithiau cymwysterau a chredyd cenedlaethol wrth osod a chynnal safonau academaidd. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A2.1): Er mwyn sicrhau eu safonau academaidd, mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu fframweithiau a rheoliadau academaidd sy'n eglur a chynhwysfawr i lywio sut y maent yn dyfarnu credyd neu gymhwyster academaidd.**

**Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd**

**Y canfyddiadau**

1.10 Mae'r Brifysgol yn goruchwyllo safonau ac ansawdd yr addysg mae'n ei darparu drwy ei strwythur pwyllgor. Y Senedd yw awdurdod academaidd y Brifysgol ac mae'n adrodd yn ôl i Gyngor y Brifysgol. Y Senedd sydd â chyfrifoldeb, yn y pen draw, am ansawdd academaidd mewn dysgu ac addysgu, rheoli a chymeradwyo'r portffolio academaidd, a rheoleiddio buddiannau academaidd y Brifysgol. Mae'r Senedd yn dirprwyo cyfrifoldeb am sicrhau safonau a gwella ansawdd i'r Bwrdd Academaidd. Mae is-bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd yn rhannu cyfrifoldeb am feysydd penodol o'r Cod Ansawdd, gan gynnwys y PSA, y Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu (PGDA), y PGY, a'r Pwyllgor Darpariaeth Ryngwladol a Chydweithredol (PDRCh). Mae'r fframwaith mae'r Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau, a byrddau arholi'r athrofeydd yn gweithredu o fewn iddo, yn cael ei ffurfio drwy bolisiau, prosesau a chanllawiau, a gesglir ynghyd yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Byrddau Arholi'r Senedd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod byrddau arholi unedig athrofeydd ac adrannau'n gweithredu'n unol â gofynion y Brifysgol. Mae'r PSA'n cyflwyno rhestr wirio flynyddol, ar sail polisiau sicrwydd ansawdd er mwyn atgoffa adrannau. Mae'r SAACH yn ymwneud â gweinyddiaeth academaidd y Brifysgol ac mae'n darparu rheolaeth ganolog ar gyfer prosesau ansawdd. Mae systemau a strwythurau sicrwydd ansawdd y Brifysgol yn ddigon cadarn a byddent yn caniatáu i Ddisgwyliad A2.1 gael ei gyflawni.

1.11 Wrth werthuso ymagwedd y Brifysgol at y Disgwyliad hwn, archwiliodd y tîm adolygu Fwrdd Academaidd y Brifysgol a chylch gorchwyl y pwyllgorau; rheoliadau academaidd a'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd; strwythurau'r sefydliad a'r pwyllgorau; a chofnodion pwyllgorau ac adroddiadau o ddiwyddiadau cymeradwyo cyrsiau.

1.12 Mae'r Brifysgol yn sicrhau bod meini prawf ar gyfer dyfarnu graddau, diplomâu a thystysgrifau ar gael ar-lein. Mae'r meini prawf yn alinio â'r FfCAU ac yn darparu disgrifiadau ar gyfer Lefelau 4 i 7 ar gyfer graddau a addysgir, ac ar gyfer Lefelau 7 i 8 ar gyfer graddau ymchwil. Mewn cyfarfodydd â'r tîm adolygu, roedd staff y Brifysgol yn eglur ynglŷn â'r defnydd o'r rheoliadau a'r prosesau a'r gweithdrefnau cysylltiedig, a chyfeiriwyd at y Llawlyfr Ansawdd Academaidd rhyngweithiol ar-lein ar wefan SAACH, fel casgliad cynhwysfawr o'r rheoliadau a'r gweithdrefnau, gan gynnwys arferion arholiadau. Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi polisi ar gredydau a'r system fodiwlaid, sy'n ffurfio rhan o'r fframwaith ar gyfer credydau a dyfarniadau targed a dyfarniadau canolradd. Gall myfyrwyr sy'n casglu digon o gredydau, ond sy'n gadael cyn cwblhau'r cymhwyster targed gael tystysgrifau neu ddiplomâu mewn addysg uwch. Mae'r Brifysgol yn disgrifio canlyniadau dysgu cyffredinol ar gyfer y tystysgrifau a'r diplomâu hyn yn y meini prawf a gyhoeddir ar gyfer cyflwyno graddau, diplomâu a thystysgrifau. Mae rheoliadau ar gyfer graddau a addysgir, ynghyd ag arferion arholiadau'n esbonio sut mae'r Brifysgol yn gwneud penderfyniadau parthed dyfarniadau a chynnydd.

1.13 Adolygodd y Brifysgol ei rheoliadau ar bob lefel yn 2013 mewn ymateb i adolygiad allanol a dadansoddiad mewnol. Mae newidiadau diweddarach yn y rheoliadau wedi dilyn cyflwyno graddau meistr integredig newydd, gyda newid yn y marc angenrheidiol i basio ar gyfer pob modiwl Lefel 7 o 40 y cant i 50 y cant. Mae'r Brifysgol hefyd wedi cyflwyno lefelau cyffredin a ganiateir ar gyfer methu credydau ar gyfer pob gradd meistr Lefel 7. Mae



Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch (ACAU) y Brifysgol ar gyfer pob myfyriwr yn nodi gwerthoedd System Drosoglwyddo Credydau Ewropeaidd (SDCE) ar gyfer pob modiwl a astudir ac mae'n cynnwys manylion o'r system raddio, swyddogaeth y cymhwyster a'i statws proffesiynol.

1.14 Mae templed safonol yn darparu sail ar gyfer cofnodion byrddau arholi, yn ogystal â chysondeb. Mae bwrdd arholi'r Senedd yn derbyn argymhellion ar gyfer dyfarniadau ac mae'n cadarnhau bod pob dyfarniad yn briodol. Mae'n cymeradwyo pob canlyniad academiaidd, gan gynnwys y rheiny sy'n perthyn i raglenni rhyddfrait a champws cangen Mawrisiws drwy'r un system. Mae'r SAACH yn trefnu sesiynau briffio rheolaidd i nodi'r pwyntiau y dylai Byrddau eu pwysleisio, ynghyd â gwneud y rheiny sy'n rhan o'r broses yn ymwybodol o'r rheoliadau cyfredol.

1.15 Mae cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (CPSRh) yn achredu ac yn cadarnhau ansawdd a safonau cyfran sylweddol o raglenni gradd y Brifysgol, ac mae'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd yn disgrifio gweithdrefnau'r Brifysgol parthed achrediad CPSRh. Mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i athrofeydd wneud sylwadau os ydynt yn bwriadu ceisio achrediad CPSRh fel rhan o broses gymeradwyo'r rhaglen, ac i adlewyrchu ar unrhyw faterion cysylltiedig fel rhan o fonitro blynyddol; maent hefyd yn adrodd i'r Bwrdd Academiaidd ar ddiwyddiadau achrediad achlysurol. Mae'r Bwrdd Academiaidd yn ystyried pob adroddiad achrediad CPSRh a gellir gorfodi athrofeydd i baratoi cynlluniau gweithredu mewn ymateb. Mae'r Bwrdd Academiaidd yn cadw cofrestr o'r rhaglenni a achredir.

1.16 Mae rheoliadau academiaidd a Llawlyfr Ansawdd Academiaidd y Brifysgol yn gynhwysfawr, maent yn alinio â disgwyliadau'r Cod Ansawdd, ac maent yn ddibynnol ar werthusiad ac adolygiad rheolaidd. Daeth y fîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A2.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen a chymhwyster y maent yn eu cymeradwyo (a newidiadau dilynol iddynt) sy'n gweithredu fel cyfeirbwynt ar gyfer darparu ac asesu'r rhaglen, ei monitro a'i hadolygu, ac ar gyfer darparu cofnodion astudio i fyfyrwyr a chynfyfyrwyr.**

**Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd**

**Y canfyddiadau**

1.17 Mae manylebau rhaglen yn darparu cofnod diamod y Brifysgol ar gyfer pob un o'i chymwysterau a addysgir. Mae adrannau'n darparu manyleb rhaglen sy'n gosod y canlyniadau dysgu ar gyfer pob dyfarniad, ynghyd â strwythurau'r cynllun arfaethedig wrth ei gymeradwyo. Yn achos graddau ymchwil, mae'r Brifysgol yn datblygu cofnod diamod o'r rhaglen wrth ei chymeradwyo. Unwaith y cânt eu cymeradwyo, bydd manylebau rhaglen ar gael ar-lein drwy gronfa ddata cynllun astudio ar-lein. Mae hyn yn darparu'r fersiwn derfynol a chysylltau i'r gronfa ddata ddiffiniol ar gyfer y modiwl. Mae arholwyr allanol yn seilio eu monitro rhaglenni blynyddol ar y manylebau rhaglen a strwythurau cynllun hyn. Mae gofynion y Brifysgol yn ddigon cadarn a byddent yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.18 Wrth ystyried y Disgwyliad hwn, edrychodd y tîm adolygu'n fanwl ar y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a dogfennaeth berthnasol arall. Hefyd cyfarfu'r tîm adolygu â staff a oedd yn ymwneud â'r broses gymeradwyo, monitro ac adolygu cyrsiau.

1.19 Mae'r staff yn cwblhau pob cynnig ar gyfer cynlluniau newydd, neu gynlluniau wedi'u diwygio, gan ddefnyddio templed ar gyfer manylebau'r rhaglen, sy'n cynnwys cyfeirnod penodol at y Datganiad Meincnod Pwnc perthnasol a'r lefel FfCAU. Mae pob adran yn gyfrifol am sicrhau bod manylebau rhaglen yn parhau i fod yn gyson â Datganiadau Meincnod Pwnc pan gaiff y rhain eu hadolygu. Mewn cyfarfodydd â'r tîm adolygu, dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o fanylebau rhaglen a'u rôl o ran sicrhau safonau.

1.20 Mae manylebau'r rhaglen yn dangos cydymffurfiad â fframwaith academaidd a rheoleiddio'r Brifysgol, a'r gofynion a nodir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae'r fanyleb rhaglen ar gyfer pob cwrs yn rhestru teitl y cynllun ac yn disgrifio dyfarniadau targed parthed disgrifiadau lefel cymhwyster FfCAU, Datganiadau Meincnod Pwnc ac unrhyw safonau sy'n berthnasol i gyrrff proffesiynol. Mae'n rhestru'r unedau sy'n cyfrannu at gwrs yn ôl eu teitl, lefel a gwerth credydau, ac mae'n nodi a yw uned yn un graidd neu ddewisol. Mae manyleb y rhaglen yn darparu crynodeb o sut dylai darlithwyr addysgu ac asesu myfyrwyr, ac mae'n disgrifio amcanion a chanlyniadau dysgu'r cwrs, gan gynnwys yr wybodaeth a'r sgiliau y bydd myfyrwyr yn eu hennill ar ôl cyflawni'r dyfarniad. Mae'r SAACH yn darparu canllawiau ar gyfer adolygu ac archifo manylebau rhaglen, ac yn sicrhau bod staff yn cyflawni hyn bob blwyddyn.

1.21 Mae prosesau ar wahân yn rheoli newidiadau i fodiwlau a rhaglenni, gan ddibynnu a ystyrir iddynt fod yn fân newidiadau neu'n newidiadau sylweddol. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn disgrifio'r prosesau hyn, ac mae'r aelodau staff a gyfarfu â'r tîm adolygu'n eu deall yn llwyr.

1.22 Mae'r system gofnodion myfyrwyr yn creu trawsysgrifau ar gyfer myfyrwyr a graddedigion. Mae'r Brifysgol yn cyflwyno ACAU i bob myfyriwr pan fyddant yn cwblhau eu dyfarniad. Mae'r ACAU yn cyfeirio at y cynllun penodol a ddilynwyd gan y myfyriwr ac mae'n darparu'r credydau cyfystyr â System Drosglwyddo a Chasglu Credydau Ewrop (SDChCE) ar gyfer modiwlau a astudiwyd, y system raddio a ddefnyddiwyd, amcan y cymhwyster, a'i statws

proffesiynol os yw hynny'n berthnasol. Mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu'r ACAU yn unol â'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr.

1.23 Mae manylebau rhaglen yn darparu cofnod diffiniol o'r graddau a addysgir y mae'r Brifysgol yn eu cynnig, a chânt eu cymeradwyo a'u diwygio drwy broses briodol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A3.1): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu prosesau, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a addysgir a graddau ymchwil sy'n sicrhau bod safonau academiaidd yn cael eu gosod ar lefel sy'n cyrraedd safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster a'u bod yn cyfateb â'u fframweithiau a rheoliadau academiaidd eu hunain.**

**Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau**

### Y canfyddiadau

1.24 Mae'r Bwrdd Academiaidd yn dirprwyo cyfrifoldeb am gymeradwyo rhaglenni i ddau is-bwyllgor: y PSA sy'n gyfrifol am gymeradwyo ac adolygu, a'r PDChA sy'n gyfrifol am gynnal trosolwg o gynlluniau newydd, atal a diddymu cyrsiau. Mae goruchwyliaeth gan bwyllgor cyffelyb yn bodoli ar gyfer graddau ymchwil a darpariaeth gydweithredol. Mae cylch gorchwyl pwyllgorau'n dangos sut mae eu cyfrifoldebau'n perthyn i adrannau o'r Cod Ansawdd.

1.25 Mae manylebau rhaglen yn cyfeirio at lefelau, achrediadau a Datganiadau Meincnod Pwnc, ac mae gwybodaeth am fodiwlau'n nodi'r lefel academiaidd. Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi meini prawf ar gyfer pob lefel a math o ddyfarniad, yn unol â FfCChC a'r FfCAU ac mae'n cyhoeddi disgrifiadau o lefelau ar gyfer holl gymwysterau'r Brifysgol.

1.26 Mae gan y Brifysgol broses eglur ar gyfer cymeradwyo cynlluniau a modiwlau, a ddisgrifir yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, sy'n gofyn am gymeradwyaeth o ganlyniadau dysgu wedi'u halinio â lefel y dyfarniad. Mae'r Llawlyfr hefyd yn amlinellu'r broses ar gyfer cymeradwyo cynllun astudio newydd neu un wedi'i ddiwygio, drwy gamau cymeradwyo cynnar, ac yna cymeradwyaeth drwy baneli llawn neu baneli cymeradwyaeth mewnol fel y penderfynir gan y PDChA.

1.27 Mae'r Brifysgol yn cynnwys arholwyr allanol wrth fynd ati i sicrhau safonau academiaidd drwy asesu. Mae templedi ar gyfer adroddiadau gan arholwyr allanol yn gofyn i arholwyr allanol benderfynu a yw'r Brifysgol wedi gosod safonau priodol ar gyfer lefel y dyfarniad, ac a yw'r safon yn gyson â sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU ac â'r FfCAU.

1.28 Mae'r Brifysgol wedi cytuno ar y prosesau ar gyfer cynllunio a chymeradwyo rhaglenni newydd, ac wedi dogfennu hynny'n eglur. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys camau a fyddai'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.29 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy edrych yn fanwl ar bolisiau a gweithdrefnau sicrwydd ansawdd, dogfennau, templedi cymeradwyo rhaglenni, canllawiau perthnasol, a manylebau rhaglen a modiwl y Brifysgol. Hefyd darllenodd y tîm enghreifftiau o ddogfennau cymeradwyaeth wedi'u cwblhau, cofnodion o bwyllgorau perthnasol, ac adroddiadau gan arholwyr allanol; hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd â'r staff academiaidd ac uwch aelodau staff eraill.

1.30 Dangosodd adolygiad o ddetholiad o fanylebau rhaglen a gwybodaeth am fodiwlau a gyhoeddwyd ddefnydd priodol o Ddatganiadau Meincnod Pwnc, a chyfeirnodau at y FfCAU a FfCAC. Caiff gwybodaeth am y cwricwlwm ei chofnodi yn y gronfa ddata ar gyfer cynlluniau dysgu, sy'n darparu deunydd y gellir ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

1.31 Dangosodd y staff ymwybyddiaeth o safonau trothwy priodol ac ymgysylltiad â safonau academiaidd drwy'r prosesau sicrwydd ansawdd, a phrosesau dilysu modiwlau a rhaglenni. Mae detholiad o ddogfennau dilysu a gwblhawyd yn cadarnhau'r ymgysylltiad hwn.

1.32 Mae adolygiad o ddetholiad o adroddiadau gan arholwyr allanol yn cadarnhau priodoldeb safonau, a'r ffaith eu bod yn cymharu â gweddill y sector.

1.33 Mae gan y Brifysgol broses effeithiol ar waith ar gyfer cymeradwyo dyfarniadau a chadarnhau bod safonau academaidd yn cael eu gosod ar lefel briodol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A3.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu dim ond pan fo:**

- **asesiad yn dangos cyflawni'r canlyniadau dysgu perthnasol (canlyniadau dysgu'r modiwl ar gyfer credydau, a chanlyniadau dysgu'r rhaglen ar gyfer cymwysterau)**
- **safonau trothwy'r DU a'u safonau academiaidd eu hunain wedi'u bodloni.**

**Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau**

**Y canfyddiadau**

1.34 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd yn disgrifio dibenion ac egwyddorion asesu, gan gynnwys canllawiau ar faint o asesu a ddylid ei wneud. Mae hefyd yn darparu fframwaith academiaidd ar gyfer asesu graddau a addysgir yn ogystal â graddau ymchwil. Mae manylebau rhaglen yn disgrifio sut mae'r Brifysgol yn defnyddio asesu i benderfynu os caiff canlyniadau dysgu a fwriedir ar lefel rhaglenni eu cyflawni. Ar lefel modiwlau, mae canlyniadau dysgu'n gysylltiedig â dulliau asesu penodol. Mae rheoliadau asesu'n disgrifio prosesau ar gyfer cymedroli mewnol ac ail-farcio, yn ogystal â system arholiadau dwy-haen. Byddai hyn yn cynnwys byrddau arholi athrofeydd/adranau, gyda byrddau arholi Senedd yn dilyn, sy'n caniatáu ar gyfer cymedroli a chraffu ar farciau. Mae arholwyr allanol hefyd yn cyfrannu at ddilysu asesiadau.

1.35 Mae prosesau ar gyfer cymeradwyo ac adolygu cynlluniau dysgu'n gofyn i bob rhaglen fod â chanlyniadau dysgu wedi'u diffinio'n eglur. Mae'r broses gymeradwyo modiwlau'n gwirio priodoldeb yr asesu i brofi bod canlyniadau dysgu'n cael eu cyflawni o gymharu â lefel yr astudiaeth a safonau academiaidd y DU. Mae dogfennaeth ar gyfer cymeradwyo cynlluniau'n mapio modiwlau yn erbyn canlyniadau dysgu ar lefel rhaglenni. Nid yw dogfennaeth ar gyfer graddau baglor gydag anrhydedd bob amser yn diffinio'n benodol y dyfarniadau canolradd na dyfarniadau yn achos gadael y cwrs. Serch hynny mae gan y Brifysgol dyfarniadau cyffredinol ar gyfer myfyrwyr sy'n gadael eu cwrs, ynghyd â manylion canlyniadau dysgu ar lefel rhaglenni yn y meini prawf ar gyfer dyfarnu graddau, diplomâu a thystysgrifau ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n ennill digon o gredydau ond sy'n gadael cyn cwblhau gradd baglor.

1.36 Byddai'r broses gymeradwyo cynlluniau, a rheoliadau sy'n perthyn i asesu'n galluogi cyflawni'r Disgwyliad hwn. Er mwyn profi'r Disgwyliad, holodd y tîm adolygu aelodau'r staff academiaidd, penaethiaid athrofeydd a phenaethiaid adranau, yn ogystal â myfyrwr israddedig ac ôl-raddedig. Roedd y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd ymysg y dystiolaeth ddogfennol a ystyriwyd, ynghyd â manylebau rhaglen, dogfennau cymeradwyaeth, cofnodion pwyllgorau ac asesu perthnasol, a rheoliadau ymchwil.

1.37 Mae paneli cymeradwyo ac adolygu cynlluniau'r Brifysgol yn craffu ar briodoldeb y canlyniadau dysgu a fwriadwyd, ac yn cadarnhau eu bod wedi eu profi drwy'r broses asesu a phriodoldeb y strategaeth asesu. Mae paneli hefyd yn cadarnhau bod pob modiwl yn cael ei fapio yn erbyn y canlyniadau dysgu ar lefel rhaglenni fel y gellir dangos bod pob un o'r canlyniadau dysgu perthnasol wedi cael eu cyrraedd drwy asesu ar lefel modiwlau.

1.38 Mae gwefan y Brifysgol yn darparu gwybodaeth fanwl am fodiwlau ar gyfer pob rhaglen sy'n nodi'r canlyniadau dysgu a fwriadwyd ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys manylion tasgau asesu. Mae llawlyfrau a dogfennaeth berthnasol yn cyfeirio'r staff a myfyrwyr at y gronfa ddata hon ar-lein. Roedd y myfyrwyr hynny a gyfarfu â'r tîm adolygu'n eglur ynglŷn â

natur a diben eu hasesiadau. Mae fframwaith academaidd y Brifysgol yn darparu system effeithiol ar gyfer asesu canlyniadau dysgu, sy'n gwbl ddealladwy i'r staff ac i fyfyrwyr.

1.39 Mae adrannau'n dilyn templed safonol i gofnodi canlyniadau arholiadau er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth deilwng i farciau unigol myfyrwyr a phroffiliau marciau ar gyfer modiwlau. Cynhelir cymedroli'n fewnol oni fydd modiwlau'n cyfrannu at y dyfarniad terfynol; mewn achos o'r fath, bydd arholwr allanol hefyd yn monitro'r safonau marcio er mwyn sicrhau bod cymedroli mewnol yn effeithiol. Mae byrddau arholi'n dilyn arferion arholiadau, ynghyd â'r rheoliadau a'r rheolau sefydlog sy'n perthyn i gynnal arholiadau.

1.40 Mae'r rheoliadau ar gyfer cyflwyno ac arholi traethodau ymchwil yn cynnwys manylion o weithdrefnau asesu effeithiol ar gyfer myfyrwyr ymchwil, ac mae'r Llawlyfr Ansawdd academaidd yn gosod y meini prawf ar gyfer dyfarnu graddau ymchwil gan gyfeirio at ddisgrifiadau perthnasol FfCAU ar gyfer dyfarniadau Lefel 7 ac 8. Mae'r PGY yn adrodd i'r Bwrdd Academaidd ac yn rhoi ystyriaeth i'r adroddiadau ar ganlyniadau'r asesu a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig.

1.41 Mae prosesau cymeradwyo ac adolygu'n ddigonol ar gyfer profi priodoldeb safonau academaidd a bod cyflawni'r canlyniadau dysgu perthnasol yn cael ei ddangos drwy asesiad. Mae gweithdrefnau asesu'r Brifysgol yn effeithiol wrth benderfynu ar ddyfarnu credyd neu gymhwyster. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A3.3): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni wedi'u gweithredu sy'n ymroi'n amlwg i ganfod a yw safonau academiaidd trothwy'r DU wedi'u cyflawni ac a yw'r safonau academiaidd sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu graddau unigol yn cael eu cadw.**

**Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau**

### Y canfyddiadau

1.42 Mae gan y Brifysgol broses ar gyfer Monitro Blynyddol o Raglenni a Addysgir (MBRA) ac mae'r cyfrifoldeb am bob rhaglen yn perthyn i'r athrofa berthnasol. Cafodd y rheiny a gyfranogodd dempledi a chanllawiau ar gyfer y broses. Mae'r PSA yn parhau i fod yn gyfrifol am lywodraethu monitro blynyddol ar lefel y Brifysgol. Mae gan y Brifysgol drefniadau ar gyfer monitro graddau ymchwil yn flynyddol drwy oruchwylywyr rhaglen.

1.43 Mae'r staff ar gyfer pob rhaglen neu gasgliad o raglenni'n cyflwyno ffurflenni monitro blynyddol wedi'u cwblhau i'w hathrofa, sydd wedyn yn llunio adroddiad monitro blynyddol i'r PSA ar yr athrofa. Mae monitro blynyddol yn gofyn i staff y rhaglenni adrodd yn ôl ar weithgareddau ers llynedd, dangosyddion ansawdd, gwerthuso ac adborth gan arholwyr allanol a chyrrff achredu, gwelliannau, arferion da ac unrhyw newidiadau i fanylebau'r rhaglen; mae hefyd yn gofyn am gynllun gweithredu. Mae'r Brifysgol yn darparu pecynnau data ar gyfer y 40 o raglenni sy'n recriwtio'r nifer mwyaf er mwyn ffurfio sail i'w hadroddiad monitro blynyddol. Mae'r ystod o ddata monitro sy'n cynorthwyo'r broses yn cynnwys cadarnhad o safonau gan arholwyr allanol, ynghyd â'u safle o gymharu â data meincnodi. Mae templedi ar gyfer adroddiadau arholwyr allanol yn annog arholwyr i wneud sylwadau penodol ar gymaroldeb safonau ac i ba raddau mae'r rhaglenni'n alinio â chyfeirbwyntiau allanol.

1.44 Roedd gan y Brifysgol broses ar gyfer adolygiad achlysurol, sydd bellach wedi cael ei disodli gan Archwiliadau Perfformiad Athrofa ac Adran (APAA) fel rhan o'i strwythur newydd. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd yn darparu manylion o'r broses, gan ei gwneud yn glir fod angen i dîm archwilio, gan gynnwys arbenigwyr pwnc allanol, ymweld ag adrannau, ac yna cynnal ymweliadau pellach â'r athrofa, er mwyn edrych ar 'reolaeth, dysgu, addysgu, gwelliant, a gweithdrefnau sicrwydd ansawdd, a monitro yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol'. Nid proses ail-ddilysu mo hon, ac mae'r Brifysgol yn cynnal cynllun peilot ar gyfer adolygiad achlysurol ar lefel rhaglenni. Byddai'r prosesau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.45 Aeth y tîm adolygu ati i werthuso ymagwedd y Brifysgol at y Disgwyliad drwy ystyried y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer adolygu rhaglenni, gan gynnwys dogfennaeth megis ffurflenni monitro blynyddol, APAA, cofnodion pwyllgorau ac adroddiadau gan arholwyr allanol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ag ystod o aelodau staff a myfyrwyr i drafod eu cyfranogiad yn yr adolygiadau blynyddol, achlysurol ac adrannol.

1.46 Rhoddwyd ystyriaeth i ddogfennaeth adolygu rhaglenni, a chanfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn cadarnhau safonau academiaidd yn effeithiol drwy'r prosesau adolygu blynyddol, adrannol ac achlysurol.

1.47 Canfu'r tîm adolygu fod adroddiadau arholwyr allanol yn cynnwys sylwadau penodol ar gymaroldeb safonau ac i ba raddau mae'r rhaglenni'n alinio â chyfeirbwyntiau allanol. Defnyddir yr adroddiadau hyn, a chyfeirir atynt, yn y prosesau monitro ac adolygu.

1.48 Nododd y tîm adolygu nad yw'r broses APAA yn cynnwys ail-ddilysu rhaglenni'n uniongyrchol. Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn cynnal peilot ar gyfer proses adolygu



achlysurol mewn un rhaglen - Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff - a'r bwriad yw gweithredu system yn ystod 2016-17.

1.49 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer adolygu a monitro safonau yn briodol a chânt eu rheoli'n effeithiol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (A3.4): Er mwyn bod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd, mae cyrff dyfarnu graddau'n defnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol o osod a chynnal safonau academiaidd i gynghori a yw:**

- **safonau academiaidd trothwy'r DU wedi eu gosod, eu darparu a'u cyflawni**
- **safonau academiaidd y corff dyfarnu graddau wedi eu gosod a'u cynnal yn briodol.**

**Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau**

### **Y canfyddiadau**

1.50 Er mwyn cymeradwyo pob cynllun, mae angen mewnbwn allanol yn ystod camau datblygu gan arholwr allanol, cynghorwyr adrannol allanol, neu gynrychiolwyr o gyrff proffesiynol neu gyrff achredu. I ffurfio panel cymeradwyo llawn, dan gadeiryddiaeth uwch academydd o wahanol athrofa, mae angen aseswr allanol. Mae disgwyl i'r aseswr allanol wneud sylwadau ar safonau a gall fod gofyn iddo gwblhau adroddiad ysgrifenedig cyn y digwyddiad. Gall panel cymeradwyo mewnol fod angen aseswr allanol, os yw'r PDACH yn penderfynu hynny, os yw newid sylweddol yn gofyn am wyriad arwyddocâol i ffwrdd o nodau ac amcanion y cynllun presennol. Rhaid i'r aseswr allanol naill ai meddu ar brofiad academiaidd priodol o fewn y pwnc sydd dan sylw neu arbenigedd proffesiynol perthnasol. Rhaid iddo fod yn annibynnol o'r Brifysgol a heb unrhyw gysylltiad â'r broses ddatblygu'r rhaglenni, yn unol â chanllawiau'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd. Yn ystod y broses gymeradwyo gychwynnol, mae'r gweithdrefnau'n nodi bod rhaid i athrofeydd ddatgan a fyddant yn ceisio achrediad CPSRh fel rhan o'r cynllun, neu'n ceisio achrediad yn ddiweddarach.

1.51 Mae Llawlyfr Ansawdd Academiaidd y Brifysgol yn disgrifio gweithdrefnau achredu'r CPSRh. Mae'r Bwrdd Academiaidd yn cadw cofrestr o bob rhaglen sydd ag achrediad CPSRh. Mae hefyd yn derbyn adroddiadau gan athrofeydd ynglŷn ag unrhyw ymarfer achredu a gynhaliwyd, ynghyd ag ystyried pob adroddiad sy'n deillio o ymarferion achredu. Mae monitro blynyddol hefyd yn gofyn am sylwadau adlewyrchol ar unrhyw fater sy'n perthyn i CPSRh ar gyfer rhaglenni a achredir.

1.52 Mae'r PSA yn goruchwyllo'r broses benodi arholwyr allanol ac yn sicrhau bod pob arholwr allanol yn derbyn ymatebion i'w hadroddiadau. Mae arholwyr allanol a benodir i oruchwyllo rhaglenni a addysgir yn cyflenwi gwaith arholwyr mewnol drwy gadarnhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r safonau y mae'n eu cyhoeddi, a bod y rhain yn gymharol â safonau sy'n bodoli mewn rhannau eraill o'r sector addysg uwch a'r safonau trothwy yn y DU. Penodir arholwyr allanol ar wahan ar gyfer y ddarpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg o fewn yr adrannau ar sail yr iaith a ddefnyddir ar gyfer asesu.

1.53 Byddai'r broses ddefnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol wrth osod a chynnal safonau academiaidd yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy holi aelodau staff yn ystod cyfarfodydd a thrwy adolygu tystiolaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol.

1.54 Yn ymarferol, mae gan y Brifysgol system briodol o ddefnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol. Dangosodd y dystiolaeth a ddarparwyd fod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r prosesau a ddisgrifir yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd. Nid oes angen mewnbwn diwydiannol annibynnol yn rheolaidd ar y Brifysgol, er bod aseswyr allanol yn craffu'n drylwyr ar y ddarpariaeth. Gall hyn gynnwys cynhyrchu adroddiad cyn i'r panel llawn ymgynnull ar gyfer cymeradwyo'r cynllun. Mae digwyddiadau mewnol ar gyfer cymeradwyo cynlluniau

hefyd yn gofyn am ymgynghori allanol, er gall hwn fod yr arholwr allanol cyfredol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae paneli cymeradwyo yn gofyn am dystiolaeth o'r ymgynghori yma fel rhan o'r broses gymeradwyo.

1.55 Mae goruchwyliaeth y Bwrdd Academaidd yn cynnwys materion CPSRh, sy'n cael ystyriaeth ddigonol; mae'r broses fonitro flynyddol hefyd yn monitro ymgysylltiad parhaus â CPSRh yn effeithiol. Mae'r PSA yn effeithiol wrth sicrhau bod arholwyr allanol yn cael eu penodi'n unol â gweithdrefnau a gyhoeddir, a bod arholwyr yn cyhoeddi eu hadroddiadau'n brydlon. Mae'r adroddiadau hyn ynghyd ag ymatebion gan adrannau'n ffurfio rhan annatod o'r broses fonitro flynyddol.

1.56 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg sy'n gysylltiedig yn isel, gan fod y broses ddefnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol yn cael ei diffinio'n ddigonol wrth osod a chynnal safonau academaidd, ynghyd â system briodol sy'n cynnwys panel cymeradwyo cynlluniau a goruchwyliaeth gan bwyllgor y Brifysgol.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Isel**

## Gosod a chynnal safonau academiaidd y dyfarniadau: Crynodeb o'r canfyddiadau

1.57 Wrth gyrraedd ei ddyfarniad, cymharodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau yn erbyn y meini prawf sydd yn Atodlen 2 o'r Llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru.

1.58 Mae'r Brifysgol wedi cyflawni holl Ddisgwyliadau'r maes dyfarnu hwn, ac mae lefel y risg ar gyfer pob Disgwyliad yn isel. Nid yw'r tîm adolygu'n gwneud unrhyw argymhellion parthed y maes dyfarniad hwn ac ni nodwyd unrhyw gadarnhad na nodweddion o arfer da.

1.59 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y broses ar gyfer gosod a chynnal safonau academiaidd dyfarniadau yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

## 2 Y Feriniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

**Disgwyliad (B1): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B1: Cynllunio, Datblygu a Chymeradwyo Rhaglenni**

#### **Y canfyddiadau**

2.1 Mae'r Bwrdd Academaidd yn llywodraethu ac yn goruchwyllo fframwaith ansawdd y Brifysgol, gyda chyfrifoldebau wedi'u dirprwyo i ddau is-bwyllgor: mae'r PSA yn gyfrifol am gymeradwyo ac adolygu rhaglenni, ac mae'r PDACH yn gyfrifol am gynnal goruchwyliaeth o gynlluniau newydd, ynghyd â chysiau a gaiff eu hatal neu eu diddymu.

2.2 Mae gan y Brifysgol broses eglur ar gyfer cymeradwyo cynlluniau a modiwlau, a ddisgrifir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, sy'n amlinellu'r broses ar gyfer cymeradwyo modiwlau a chynlluniau astudio newydd a'r rheiny a ddiwygiwyd. Gwneir hyn drwy gamau cymeradwyo cychwynol, ac wedyn cymeradwyo drwy baneli cymeradwyo llawn neu fewnol yn unol â'r hyn a benderfynir gan yr PDACH. Mae'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth gefndir a thempledi ar gyfer y prosesau hyn. Mae'r Ffurflen Gymeradwyo Cynlluniau'n gofyn i baneli gadarnhau eu bod wedi derbyn y ddogfennaeth berthnasol ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys tystiolaeth o ymgynghoriad allanol. Gall aseswyr allanol gyflwyno adroddiad gan aseswr allanol.

2.3 Mae'r PSA yn monitro'r broses ar gyfer cymeradwyo modiwlau, ond Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu (PDA) yr athrofa sy'n gyfrifol am gymeradwyo modiwlau newydd a'r rheiny sydd wedi cael eu hail-strwythuro. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo mân newidiadau i fodiwlau ac atal neu ddiddymu modiwlau, yn seiliedig ar ganllawiau a thempledi ar gyfer cymeradwyo, newid neu ddiddymu modiwlau. Mae'r SAACH yn cadw cofnod o unrhyw newidiadau mewn modiwlau a'u ffurf derfynol ar fformat diogel.

2.4 Mewn egwyddor, mae prosesau eglur ar gyfer cymeradwyo a newid modiwlau, a fyddai'n galluogi i'r Disgwyliad hwn gael ei gyflawni. Aeth y tîm ati i adolygu'r modd y caiff gweithdrefnau cynllunio a chymeradwyo'r Brifysgol eu gweithredu drwy ystyried dogfennau cymeradwyo modiwlau a rhaglenni, yn ogystal â thystiolaeth sy'n perthyn i'r broses ar gyfer gwneud newidiadau, a thrwy gyfarfodydd ag aelodau staff perthnasol.

2.5 Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth o'r broses gymeradwyo fanwl ar gyfer rhai graddau a gymeradwywyd yn ddiweddar. Mae cofnodion yr PDACH a'r PSA, ynghyd ag enghreifftiau o gofnodion ac adroddiadau paneli cymeradwyo, yn dangos ystyriaeth briodol o gynigion cychwynol ac adroddiadau ar gymeradwyo rhaglenni. Darparwyd tystiolaeth o'r broses ar gyfer cymeradwyo modiwlau gan adrannau i bwyllgorau ar lefel athrofeydd. Canfu'r tîm dystiolaeth o graffu yn y broses ar gyfer gwneud mân newidiadau i fodiwlau; roedd yr aelodau staff a holwyd gan y tîm yn gwbl ymwybodol o'r prosesau cymeradwyo a diwygio.

2.6 Nododd y tîm adolygu bod myfyrwyr yn cymryd rhan yn y broses gymeradwyo drwy aelodaeth o'r PDA ar lefel athrofeydd ac adborth anffurfiol ar gyrsiau. Nid yw myfyrwyr yn cyfranogi'n uniongyrchol mewn paneli dilysu na chymeradwyo. Mae'r canfyddiad hwn yn cadarnhau'r argymhelliad dan Ddisgwyliad B5.

2.7 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B2): Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn yn glynu at egwyddorion mynediad teg. Maent yn eglur, dibynadwy, dilys a chynhwysol ac maent wedi'u tanategu gan strwythurau a phrosesau sefydliadol priodol. Maent yn cefnogi darparwyr addysg uwch i ddethol myfyrwyr sy'n gallu cwblhau eu rhaglenni.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B2: Recriwtio, Dethol a Mynediad i Addysg Uwch**

#### **Y canfyddiadau**

2.8 Mae gan y Brifysgol broses dderbyn ganolog ar gyfer y mwyafrif o raglenni a addysgir sy'n gwneud dyfarniadau yn erbyn meini prawf a gyhoeddir ar gyfer derbyn myfyrwyr. Mae rhai eithriadau i hyn; mae Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, yr Ysgol Gelf a'r Athrofa Wyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau gan israddedigion. O gylchred ceisiadau 2016-17 bydd penderfyniadau ar ymgeiswyr ar gyfer IBERS hefyd yn cael eu gwneud yn ganolog. Yn yr un modd, mae rhai eithriadau i hyn ar lefel ôl-raddedig a addysgir.

2.9 Mae'r Brifysgol yn ystyried pob cais ar sail unigol, ac mae ganddi bolisi parthed derbyn myfyrwyr anabl a'r rheiny sydd â gwahaniaethau dysgu penodol yn unol â'i pholisi ar ehangu mynediad. O 2016-17 ymlaen, bydd y Brifysgol yn defnyddio data cyd-destun i sicrhau mynediad teg ymhellach.

2.10 Mae gan y Brifysgol ddatganiad polisi ar dderbyn myfyrwyr ac mae'n cynhyrchu canllawiau ar gyfer tiwtoriaid derbyn. Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn gwybodaeth sy'n cynnwys manylion am ddiwrnodau pan all ymgeiswyr ymweld â'r Brifysgol, llety, cyllid a chyfleoedd ar gyfer cynlluniau cyfnewid rhyngwladol.

2.11 Mae'r Bwrdd Academaidd yn goruchwyllo prosesau derbyn drwy is-bwyllgorau a bennir. Rhoddwyd cymeradwyaeth i newid diweddar gan y Brifysgol i wneud cynigion gan ddefnyddio cymwysterau a graddau fesul pwnc, yn hytrach na phwyntiau tariff. Mae'r Pwyllgor Recriwtio a Marchnata'n gyfrifol am ddatblygu, adolygu ac addasu strategaethau recriwtio a marchnata, yn ogystal â'r polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig. Mae'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar nifer o feysydd, gan gynnwys recriwtio, derbyn, ysgoloriaethau a bwrsariaethau. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys cynrychiolydd o undeb y myfyrwyr. Caiff y gwaith hwn ei gynorthwyo gan Grŵp Gweithredu ar Recriwtio, sy'n cyfarfod bob pythefnos i ddatblygu strategaethau i gyrraedd y targedau hyn, Grŵp Gweithredu Wythnos Groeso sy'n cadarnhau, goruchwyllo a monitro holl drefniadau sefydlu ar gyfer myfyrwyr newydd.

2.12 Mae gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr yn ei gwneud yn glir na allant apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn ac mae gweithdrefnau hygyrch ar gyfer gwneud cwynion ynglŷn â recriwtio a derbyn. Mae'r Brifysgol wrthi'n adolygu ei gweithdrefnau cwynion yn barod ar gyfer cylchred ceisiadau 2016-17.

2.13 Byddai'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu datblygu gan y Brifysgol yn y maes hwn yn caniatáu i'r Disgwyliad hwn i gael ei gyflawni. Edrychodd y tîm adolygu'n fanwl ar y Disgwyliad hwn mewn cyfarfodydd â myfyrwyr, cyfarwyddwyr athrofeydd a phenaethiaid adrannau, staff academaidd, staff cymorth proffesiynol, a staff a myfyrwyr o gampws Mawrisiws. Hefyd archwiliwyd y ddogfennaeth, gan gynnwys manylion y gweithdrefnau ymgeisio a'r chyfathrebu â myfyrwyr, yn ogystal â dogfennau sy'n perthyn i reoli a goruchwyllo'r prosesau recriwtio.

2.14 Ystyriodd y tîm adolygu ymagwedd y Brifysgol at ehangu cyfranogaeth a derbyniadau cynhwysol, gan gynnwys adroddiadau a ysgrifennwyd gan y Ganolfan Ehangu

Cyfranogaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol. Hefyd rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ac adolygiadau polisi, yn ogystal â chwrrd â staff cymorth proffesiynol. Hefyd cyfarfu'r tîm â myfyrwyr israddedig a graddedigion, gan gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Gwelodd y tîm adolygu amryw o weithgareddau yn ystod y cyfnod sefydlu a derbyn ar gyfer myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen ymgyfarwyddo deuddydd ar gyfer myfyrwyr sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth cyn wythnos y glas, ynghyd â datblygiad ap sy'n hyrwyddo gwybodaeth am hygyrchedd. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i gynhwysiant. Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu adborth personol ar y broses dderbyn i bob ymgeisydd llwyddiannus, gan ddangos cymorth unigol. Mae'r broses cyn cofrestru a chymorth personol a roddir i fyfyrwyr, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu penodol, sy'n hwyluso eu mynediad i'r Brifysgol, yn **arferiad da**.

2.15 Edrychodd y tîm adolygu'n fanwl ar wybodaeth ynglŷn ag ymagwedd y Brifysgol at ehangu cyfranogaeth, a chanfuwyd bod safbwynt y Brifysgol parthed proses dderbyn gynhwysol yn gadarn. Er enghraifft, mae'r Brifysgol yn cynnal Prifysgol Haf er mwyn targedu grwpiau ehangu mynediad. Mae'r rhaglen breswyl chwe-wythnos hon, gyda thua 90 o gyfranogwyr bob blwyddyn, yn rhoi cipolwg o addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr; mae'n paratoi disgyblion ar gyfer bywyd fel myfyriwr ac yn helpu i ddatblygu hyder myfyrwyr. Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithredu cynllun Ehangu Gorwelion mewn ysgolion i gynorthwyo cyrhaeddiad mewn Mathemateg a Saesneg. Mae'r Pwyllgor Recriwtio a Marchnata'n gyfrifol am fonitro'r targedau sy'n perthyn i ehangu cyfranogaeth.

2.16 Roedd myfyrwyr ar gampws Mawrisiws yn gadarnhaol ynglŷn â'u profiad o'r broses dderbyn. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cael gwybodaeth ynglŷn â'r Brifysgol drwy weithgareddau allgymorth, ar lefel ysgolion ac mewn ffeiriau derbyn. Roedd y staff yn cadarnhau bod gweinyddiaeth ganolog y Brifysgol yn adolygu pob ymgeisydd ar gyfer rhaglenni ym Mawrisiws yn union fel rhaglenni eraill Aberystwyth. Mae darpar fyfyrwyr yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r Brifysgol a'i rhaglenni drwy brosbectws penodol ar gyfer Mawrisiws, sy'n cynnwys manylion am amcanion cyffredinol cyrsiau, sgiliau cyflogadwyedd y gellir eu hennill gan ddilyn cyrsiau, a ffioedd ar gyfer rhaglenni. Caiff ymgeiswyr llwyddiannus wybodaeth bellach ar ffurf llythyr cynnig.

2.17 Roedd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan yn eu hadlewyrchiadau ar y broses geisiadau a derbyn. Roedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu wedi bod mewn cysylltiad â'u harolygydd cyn cael eu derbyn, gyda chyfweiliadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb a thrwy fideo gynadledda. Roedd profiadau myfyrwyr o'r broses dderbyn yn amrywio yn ôl adeg y flwyddyn y bu iddynt ddechrau eu hastudiaethau. Mae'r Brifysgol yn cynnal sesiynau sefydlu ar gyfer ôl-raddedigion ymchwil ddwywaith y flwyddyn.

2.18 Mae'r Brifysgol yn galluogi myfyrwyr i ddatgan nodweddion a amddiffynir ac anghenion dysgu ychwanegol wrth iddynt gael eu derbyn. Mae polisi'r Brifysgol parthed derbyn myfyrwyr anabl a'r rheiny sydd ag anghenion dysgu arbennig yn ymrwmo'r Brifysgol i egwyddor ehangu cyfranogaeth ac asesu pob cais yn unigol. Mae'r Brifysgol yn darparu Cynghorwyr Anabledd o fewn ei Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr er mwyn cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr sydd ag anghenion dysgu yn ystod y broses ymgeisio a derbyn.

2.19 Mae gan y Brifysgol bolisiau a gweithdrefnau teg ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn darparu cymorth i fyfyrwyr ac yn ystyried eu hanghenion gydol y broses ymgeisio a chofrestru. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B3): Mae darparwyr addysg uwch, wrth weithio gyda'u staff, eu myfyrwyr a'u rhanddeiliaid eraill, yn llunio, ac yn adolygu a gwella'n systematig, y dull o ddarparu cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu, fel bod modd i bob myfyriwr ddatblygu fel dysgwr annibynnol, astudio eu pwnc/pynciau dewisedig yn fanwl a gwella eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B3: Dysgu ac Addysgu**

#### **Y canfyddiadau**

2.20 Mae ymagwedd y Brifysgol at ddysgu ac addysgu wedi'i chynnwys yn Strategaeth Ddysgu ac Addysgu'r Brifysgol 2012-17, a ddiweddarwyd ddechrau'r flwyddyn academaidd 2015-16. Mae'r Strategaeth, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Academaidd, yn ymrwmo i wella cyfleoedd dysgu myfyrwyr a'r nod yw helpu i fynd i'r afael ag Amcan 1, 'Creu Cyfleoedd', ac Amcan 3, 'Addysgu sy'n Ysbrydoli', yng Nghynllun Strategol y Brifysgol.

2.21 Tair thema allweddol y Strategaeth Ddysgu ac Addysgu yw cyfoethogi profiad myfyrwyr, sgiliau a chyflogadwyedd graddedigion, ac ehangu mynediad. Mae'r PGDA yn goruchwylio Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr (CLIM), a gynhyrchwyd i weithredu'r Strategaeth Ddysgu ac Addysgu a bydd yn ei adolygu bob blwyddyn. Y Dirprwy Is-ganghellor Dysgu ac Addysgu sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y Strategaeth Ddysgu ac Addysg a'r CLIM. Caiff themâu'r CLIM eu cynnwys mewn ceinciau gwaith i'w gweithredu. Mae pwyllgorau'r Brifysgol yn derbyn adroddiadau ar bob thema, ac mae gan yr adran gynllunio rôl gydlynw a monitro er mwyn sicrhau bod y ceinciau gwaith yn gwneud cynnydd. Gall ceinciau gwaith a mentrau sy'n cynorthwyo'r Strategaeth fod yn fyr neu'n hir dymor; eu nod yw gwella profiad myfyrwyr, a thrwy hynny ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) ac enw da'r Brifysgol.

2.22 Er mwyn cynorthwyo ei Strategaeth Ddysgu ac Addysgu, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn adnewyddu manau dysgu ac mae'n gweithio i wella cyflogadwyedd ei myfyrwyr gyda mentrau megis *Aber Temps* ac Ymlaen Aber, sy'n darparu profiadau gwaith strwythuredig ar gyfer myfyrwyr a graddedigion. Mae datblygiadau ar y campws yn cynnwys ail-agor campws Llanbadarn fel Canolfan Llanbadarn, agor canolfan newydd ar gyfer ôl-raddedigion ar Gampws Penglais, ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer adnewyddu adeilad yr Hen Goleg er mwyn creu mwy o le ar gyfer ôl-raddedigion. Hefyd yn 2014, lansiodd y Brifysgol Academi Aber i hyrwyddo eu bod yn creu adnoddau addysgol aml-gyfryngau ac annog syniadau ar gyfer gwella dysgu, addysgu ac addysgeg.

2.23 Ail-ffurfiodd y Brifysgol Grŵp Dysgu ac Addysgu Ar-lein Aberystwyth a'i newid i'r Grŵp Gwella Dysgu drwy Dechnoleg (GGDD) yn 2014. Mae'r GGDD yn adrodd i'r PGDA ac mae ganddo gylch gorchwyl i oruchwylio'r defnydd o dechnoleg newydd yn y Brifysgol ac i hybu datblygiad y rhith-amgylchedd dysgu (RhAD). Er enghraifft, cyflwynodd y GGDD ganllawiau ar y presenoldeb isafswm a phresenoldeb wedi'i wella ar gyfer modiwlau ar yr RhAD. Mae cynrychiolaeth ar y GGDD yn cynnwys athrofeydd, staff cymorth perthnasol a myfyrwyr, ac mae pob athrofa'n cynhyrchu cynllun gweithredu GGDD sy'n canolbwyntio ar wella dysgu ac addysgu drwy dechnoleg a'r rhaglenni y maent yn eu cyflwyno. Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi gwybodaeth gyfredol a hanesyddol ar weithgareddau dysgu a wellwyd drwy dechnoleg ar wefan NEXUS y Brifysgol.

2.24 Mae cynlluniau GGDD athrofeydd yn hyrwyddo'r defnydd o feddalwedd i recordio darlithoedd ('cipio darlithoedd'), ym mhob ystafell ddysgu ganolog y Brifysgol. Mae'r CLIM yn paratoi ar gyfer cipio darlithoedd yn orfodol ar gyfer yr holl ddysgu sy'n digwydd mewn darlithfeydd o fis Medi 2016 ymlaen. Mae datblygiadau technoleg pellach yn cynnwys meddalwedd a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer rheoli a rhannu rhestrau darllen, a buddsoddi mewn meddalwedd llunio amserlenni. Mae hyn wedi galluogi myfyrwyr i gael



mynediad i amserlenni personol ar sawl dyfais ac i danysgrifio i lyfrgell bellach ar-lein mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr.

2.25 Mae myfyrwyr yn cyflwyno gwaith cwrs wedi'i baratoi ar ffurf electronig drwy feddalwedd cymharu testun sy'n cynorthwyo wrth ganfod arferion academiaidd a all fod yn annerbyniol. Mae grŵp prosiect sy'n ffurfio cainc o'r CLIM yn goruchwyllo'r polisi e-gyflwyno ac mae'n gweithio i gynyddu nifer yr unigolion sy'n defnyddio e-farcio ac e-adborth.

2.26 Mae'r Ganolfan Datblygu Staff ac Arferion Academiaidd (CDSAA) yn darparu Tystysgrif Addysgu mewn Addysg Uwch i Raddedigion (TAAUR); cwrs gorfodol ar gyfer pob aelod staff newydd sydd â chyfrifoldebau addysgu, a'r rheiny sydd â llai na thair blynedd o brofiad mewn addysgu yn y sector addysg uwch. Mae'n cynnwys dau fodiwl 30-credyd ar lefel meistr: y cyntaf wedi'i achredu gan yr Academi Addysg Uwch (AAU) ar lefel Cymrawd Cysylltiedig; yr ail ar lefel Cymrawd. Mae'r Brifysgol wedi cyrraedd targed yn ei Chynllun Strategol i gael 60 y cant o'r aelodau staff llawn amser sy'n addysgu i fod â statws Cymrawd yr AAU, neu uwch, erbyn 2017.

2.27 Wrth iddynt gael eu sefydlu, mae myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn mynychu sesiwn gyflwyno ar addysgu wedi'i darparu'n ganolog; wedyn mae'r adran y byddant yn gweithio ynddi'n darparu cefnogaeth bellach. Mae gan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig hefyd y dewis o gwblhau modiwl cyntaf TAAUR neu symud at y dystysgrif lawn er mwyn ennill statws Cymrawd Cysylltiedig neu Gymrawd yr AAU. Gall y rheiny nad ydynt am wneud hyn, ond sydd serch hynny wedi ennill digon o brofiad addysgu, hefyd ymgeisio am statws Cymrawd Cysylltiedig neu Gymrawd yr AAU yn union fel aelodau staff eraill y Brifysgol.

2.28 Mae'r Brifysgol yn cynnal rhaglenni arsylwi ar addysgu gan gyfoedion ar draws pob adran, ac mae disgwyl i'r holl aelodau staff addysgu gael rhywun yn arsylwi arnynt, ac iddynt hwythau arsylwi ar eraill yn addysgu.

2.29 Er mwyn cynorthwyo yn eu datblygiad academiaidd, pennir tiwtor personol ar gyfer pob myfyriwr israddedig, a chaiff tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith eu pennu ar gyfer myfyrwyr Cymraeg lle bo hynny'n bosib. Ynghyd â hyn, er mwyn sicrhau bod gan fyfyrwyr gyfle cyfartal ac effeithiol i gael mynediad i'w dysgu, mae Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn darparu gwasanaethau ar gyfer myfyrwyr anabl a'r rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Y nod yw sicrhau bod cyfleusterau academiaidd y Brifysgol ar gael i bawb sy'n astudio, ac mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn cynnwys cynllun mentora arbenigol ar gyfer myfyrwyr anabl.

2.30 Mae'r Brifysgol yn casglu ac yn dadansoddi ystod o wybodaeth a all ddylanwadu ar gyfleoedd dysgu ac arferion addysgu. Mae hyn yn cynnwys Arolwg Blynyddol o Ddefnyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth, a chyhoeddir y canlyniadau ar-lein. Mae'n ymdrin â'r holl wasanaethau llyfrgell a TG gan gymharu'r data a dderbyniwyd er mwyn nodi tueddiadau a chynllunio gwasanaethau. Mae Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr hefyd yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n adlewyrchu ar y gwasanaeth maent yn ei ddarparu. Mae'r Brifysgol hefyd yn cyflwyno arolwg canol-modiwl 'Dwedwch Wrthym Nawr' sy'n rhoi llwybr ychwanegol ar gyfer derbyn adborth ac ymateb i faterion yn ystod y flwyddyn.

2.31 Byddai'r ymagweddau hyn, gan weithio gydag ystod o randdeiliaid i adolygu a gwella'r cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu a ddarperir, yn caniatâu'r i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.32 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy adolygu tystiolaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol, gan gynnwys y cyflwyniad gan fyfyrwyr i'r adroddiad hwn, gwybodaeth ar ei gwefan a thrwy gwrdd â myfyrwyr a'r staff academiaidd ac ategol a'u holi.

2.33 Mae'r Brifysgol yn defnyddio'r CLIM fel dull o weithredu'r Strategaeth Ddysgu ac Addysgu. Mae hi wedi sefydlu 16 gweithgor ac mae pob un yn canolbwyntio ar geinciau gwaith y CLIM.

2.34 Mae gan y GGDD rôl weithredol o ran cynyddu'r defnydd o dechnoleg ar draws y Brifysgol. Mae cynlluniau gweithredu athrofeydd yn darparu darlun eang o gamau cynnar y gweithredu hwn, gyda'r bwriad o gynyddu nifer y modiwlau RhAD sy'n cyrraedd y lefel isaf o bresenoldeb angenrheidiol, gan ddefnyddio e-gyflwyno, a chynyddu ymgysylltiad gyda meddalwedd rhestrau darllen, cipio darlithoedd ac Academi Aber.

2.35 Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu bod rhai modiwlau, ac mewn rhai meysydd pwnc, grwpiau o fodiwlau, o hyd heb gyrraedd y lefel isaf sy'n dderbyniol ar gyfer presenoldeb RhAD. Mewn cyferbyniad i hyn, mae adrannau wedi mabwysiadu meddalwedd rhestrau darllen, a hynny'n gyflym; mae'r staff a myfyrwyr fel ei gilydd yn cydnabod y manteision sy'n perthyn i hyn. Mae tanysgrifio i lyfrgell bellach ar-lein yn rhoi mynediad i aelodau staff a myfyrwyr i stoc llyfrau print sy'n bodoli eisoes ar ffurf electronig, ynghyd â mynediad i eitemau ychwanegol a rhai nad oeddent ar gael o'r blaen.

2.36 Mewn ymateb i'r Strategaeth Ddysgu ac Addysgu a chynlluniau gweithredu GGDD, mae nifer y darlithoedd a gipiwyd wedi cynyddu'n sylweddol o 853 o sesiynau yn 2012-13 i 3,841 yn 2015-16. Er bod y staff ar y cyfan wedi mabwysiadu'r broses e-gyflwyno, mae anawsterau'n parhau ynglŷn â'r defnydd o feddalwedd cymharu testun, a hygyrchedd myfyrwyr i hyn, er mwyn canfod arferion academaidd annerbyniol. Mae anawsterau hefyd yn perthyn i argaeledd y rhyngwyneb meddalwedd drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler paragraff 2.79). Nododd y tîm adolygu bod system RhAD lawn a mynediad i e-gyflwyno ar gael i fyfyrwyr yn Mawrisiws, a oedd hefyd yn elwa o amryw o systemau ar-lein eraill a ddatblygwyd neu a fabwysiadwyd gan y Brifysgol i hyrwyddo cyfleoedd dysgu.

2.37 Mae'r CDSAA wedi bod yn hyrwyddo datblygiad ac ymgysylltiad y staff â'r AAU. Mae'r Brifysgol eisoes wedi mynd y tu hwnt i'r targed yn ei Chynllun Strategol i gael 60 y cant o'r staff llawn amser sy'n addysgu i fod yn Gymrawd o'r AAU, erbyn 2017. Mae'r CDSAA hefyd yn gweithio i ddatblygu tri modiwl 20-credyd ychwanegol i'r TAAUR er mwyn gallu cyflwyno diploma â'r bwriad o achredu'r modiwlau ar gyfer cymhwyster Uwch Gymrawd o'r AAU. Mae'r gynhadledd ddysgu ac addysgu flynyddol yn dangos arferion da, ac mae'r rhan fwyaf o'r sesiynau'n deillio o brosiectau addysgu a gynhelir gan y rheiny sy'n cymryd rhan yn y TAAUR. Mae'r Brifysgol yn elwa o fod â staff cymwysedig; clywodd y tîm adolygu gan fyfyrwyr bod enw da'r staff yn ffactor wrth ddewis fan astudio.

2.38 Mae ystod eang o gymorth astudio ar gael i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, gan gynnwys y Rhaglen Ddatblygu Ymchwilwyr a gyflwynwyd i fyfyrwyr yn ystod y cyfnod sefydlu. O ran datblygu proffesiynol, gall myfyrwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n gwneud ymchwil ôl-raddedig ac sy'n addysgu ac/neu yn asesu, gael mynediad i'r TAAUR os ydynt am wneud hynny. Er bod rhagarweiniad i addysgu'n rhan o sefydlu myfyrwyr ymchwil, i'r myfyrwyr hynny nad ydynt yn cychwyn ar eu hastudiaethau ar ddechrau blwyddyn, nid yw hyn o'r rheidrwydd yn digwydd cyn ymgymryd â dyletswyddau addysgu. Yn ogystal â hyn, nid yw'r rhagarweiniad hwn yn darparu hyfforddiant penodol ar gyfer addysgu ac asesu. Mae'r canfyddiad hwn yn cadarnhau'r argymhelliad ym mharagraff 2.148. Gall myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig fynychu gweithdai a ddarperir gan y CDSAA a gallant hefyd dderbyn cymorth gan yr adran.

2.39 Er bod y Brifysgol yn cydnabod yr angen i wella monitro arsylwi gan gyfoedion, nododd y staff fod y system yn cael ei gweithredu'n eang. Mae gan bob myfyriwr israddedig ac ôl-raddedig fynediad i diwtor personol, ac mae'r Pwyllgor Cymorth i Fyfyrwyr yn derbyn adroddiadau ar gynnydd drwy Strategaeth Wella Tiwtoriaid Personol. Mae myfyrwyr israddedig a gyfarfu â'r tîm adolygu'n gadarnhaol ynglŷn â'r system diwtoriaid personol;

roedd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn cefnogi effeithiolrwydd eu fframwaith arolygu, ac maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth fugeiliol sydd ar gael.

2.40 Mae'r Arolwg o Ddefnyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth, a gynhelir yn flynyddol, yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr ac adlewyrchol o'r gwasanaethau a ddarperir, gan sicrhau bod canlyniadau'r arolwg ar gael ar-lein. Oherwydd hyn, gall nodi a blaenoriaethu pryderon myfyrwyr; yn ogystal â chrynodeb ar-lein o ganlyniadau, mae'n cyhoeddi gwybodaeth am newidiadau penodol sy'n deillio o'r arolwg ar ffurf poster 'Dwedoch Chi, Gwnaethon Ni'. O gymharu â'r Arolwg o Ddefnyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar faint o wasanaethau a ddarperir, mae arolwg blynyddol diweddaraf Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn seiliedig ar ansawdd a gwybodaeth. Nid yw'n defnyddio unrhyw ddata sy'n adlewyrchu ar fynediad na faint gaiff ei wasanaethau ei ddefnyddio, gan gynnwys y gweithdai hynny sy'n gysylltiedig â datblygu cwricwlwm cynhwysol.

2.41 Mae'r Brifysgol yn cymryd ymagwedd strategol at ddatblygu ei dysgu ac addysgu. Er ei bod yn gallu mesur agweddau o effeithiolrwydd y gwaith yma - er enghraifft, mae canlyniadau'r Arolwg o Ddefnyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth ac ymgyrch 'Dwedoch Chi, Gwnaethon Ni' yn dangos cynnydd mewn sawl maes - mewn meysydd eraill megis Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, nid yw'r Brifysgol yn defnyddio data ar gyfer lefel defnydd nac argaeledd gwasanaethau yn ei gwerthusiadau. Canfu'r tîm adolygu fod y Brifysgol yn gwella'r cyfleoedd dysgu y mae'n eu darparu a'u harferion addysgu, ond mewn sawl achos mae'r gwaith hwn yn ddatblygiadol, er enghraifft yr amryw weithgorau sy'n parhau i ganolbwyntio ar gyflwyno'r CLIM.

2.42 Mae'r Brifysgol yn dangos ymagwedd strategol at ddatblygu'r dysgu ac addysgu mae'n eu darparu, a hynny mewn amgylchedd sy'n gydnaws â dysgu. Mae staff cymwysedig sy'n gallu creu sail i'r cwricwlwm, gyda'u harbenigedd yn y pwnc a'u hymgysylltiad helaeth ag ymchwil perthnasol, yn dystiolaeth o hyn. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B4): Mae gan ddarparwyr addysg uwch drefniadau ac adnoddau sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol ac maent yn monitro ac yn gwerthuso'r rhain.**

**Cod Ansawdd, Pennod B4: Galluogi Datblygiad a Chyflawniad y Myfyriwr**

**Y canfyddiadau**

2.43 Y Bwrdd Academaidd sy'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso prosesau ac adnoddau'r Brifysgol sy'n cynorthwyo datblygiad a chyrhaeddiad myfyrwyr. Cytunodd ar amcanion sydd o fewn cyrraedd iddo'i hun a'i is-bwyllgorau yn ystod 2015-16, ar gyfer ystyriaeth fel materion sefydlog i'r pwyllgor. Mae amryw o'r amcanion yn alinio â'r CLIM gyda'i themâu allweddol, sef cyfoethogi profiad myfyrwyr, datblygu sgiliau a chyflogadwyedd graddedigion ac ehangu mynediad.

2.44 Mae myfyrwyr newydd yn cael cyflwyniad i'r Brifysgol sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn ag argaeledd adnoddau a threfniadau cymorth. Mae myfyrwyr ôl-raddedig, myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a myfyrwyr rhyngwladol yn mynd drwy brosesau sefydlu wedi'u teilwra'n benodol ar eu cyfer. Mae Tîm A, wedi'i drefnu gan Wasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr ac Undeb y Myfyrwyr, hefyd yn cynnig cefnogaeth i gyfoedion yn ystod yr Wythnos Groeso.

2.45 Pennir tiwtor personol ar gyfer pob myfyriwr israddedig, a chaiff tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith eu pennu ar gyfer myfyrwyr Cymraeg pan fo hynny'n bosib. Mae rôl y tiwtor personol yn darparu cymorth cyflawn i fyfyrwyr ar gyfer cynllunio datblygiad personol, yn ogystal â chanfod a defnyddio adnoddau a chyfleoedd a ddarperir gan y Brifysgol.

2.46 Mae'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr yn cynnwys y Gwasanaeth Lles, y Gwasanaeth Hygyrchedd, a'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian. Nod y Gwasanaeth Lles yw sicrhau bod iechyd a llesiant yn rhan annatod o fywyd pob dydd myfyrwyr yn y Brifysgol, ac mae'r Gwasanaeth Hygyrchedd yn ceisio sicrhau argaeledd cyfleusterau academaidd i bawb sy'n astudio yn y Brifysgol. Mae'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian yn darparu gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth ac atgyfeirio ar faterion sy'n cynnwys lles, materion ariannol, rheolau a rheoliadau'r Brifysgol. Mae'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Cymorth i Fyfyrrwyr, sy'n trafod ac yn adlewyrchu ar ei ystod o weithgareddau.

2.47 Mae Gwasanaeth Hygyrchedd y Brifysgol yn gweithio gyda myfyrwyr anabl a'r rheiny sydd ag anghenion dysgu penodol er mwyn trefnu newidiadau a chymorth priodol. Mae hefyd yn cynnal arolwg blynyddol i benderfynu ar effeithiolrwydd y gefnogaeth sydd ar gael. Mae hefyd yn cynorthwyo myfyrwyr i gael y gorau allan o fynychu diwrnodau agored, ac mae'n darparu cyngor a chefnogaeth ynglŷn â'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl (LFA). Mae'r Brifysgol wedi sefydlu gweithgor, sy'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cymorth i Fyfyrrwyr, i ystyried goblygiadau newidiadau arfaethedig i'r LFA ar gyfer myfyrwyr sy'n wreiddiol o Loegr. I'r myfyrwyr hynny nad ydynt yn gymwys i dderbyn y LFA, mae'r Brifysgol yn darparu arian o'i chyllideb ei hun i sicrhau nad yw myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu dan anfantais, ac mae'n gweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddarparu canolfan allgymorth LFA.

2.48 Mae Gwasanaeth Hygyrchedd y Brifysgol yn ceisio darparu pob myfyriwr â phrofiad o'r ansawdd uchaf, a sicrhau bod cyfleusterau academaidd ar gael i bawb sy'n cyflawni'r gofynion mynediad. I fyfyrwyr anabl, y rheiny sydd â chyflwr iechyd hir dymor neu sydd ag angen dysgu penodol, gall y Gwasanaeth Hygyrchedd drefnu ystod o newidiadau neu gymorth megis cymryd nodiadau, llety wedi'i addasu, technoleg i'w galluogi ac arholiadau unigol.

2.49 Yn sgil Strategaeth Gyflogadwyedd newydd a gymeradwywyd yn 2015, ail-drefnwyd y Gwasanaeth Gyrfaoedd. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Gyflogadwyedd, sef un o is-grwpiau'r Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu, yn monitro'r Strategaeth hon drwy weithredu Cynlluniau Cyflogadwyedd Athrofeydd, sy'n sefydlu amcanion penodol. I gyflenwi'r Strategaeth hon, amcan y Fframwaith Addysg Gyrfaoedd yw sefydlu sgiliau rheoli gyrfa fel rhan o'r cwricwlwm drwy raglen o fentrau cyflogadwyedd dan arweiniad adrannau, gyda chymorth ymgynghorwyr gyrfaoedd penodol.

2.50 Yn ddiweddar, gweithredodd y Gwasanaethau Gwybodaeth system newydd wedi'i hawtomeiddio ar gyfer monitro presenoldeb, ac mae gan y Brifysgol gynlluniau ar gyfer y dechnoleg hon i gynorthwyo â monitro ymgysylltiad a chynnydd academiaidd myfyrwyr.

2.51 Mae rhaglenni cymorth dysgu i fyfyrwyr yn cynnig datblygiad sgiliau academiaidd ar gyfer pob myfyriwr, naill ai'n ddewisol neu wedi'u hargymell. Maent yn cynnwys cyfres o gyrsiau am ddim, cyrsiau modiwlaid ac ymgynghoriadau unigol, ynghyd â gwasanaethau academiaidd cysylltiedig, ar gael o'r Ganolfan Saesneg Rhyngwladol.

2.52 Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg yn cynorthwyo athrofeydd ac adrannau academiaidd i ddatblygu modiwlau, cyrsiau a phrosiectau i sicrhau bod gan fyfyrwyr ddewis o ddarpariaeth ac adnoddau wrth astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall myfyrwyr benderfynu astudio pob modiwl yn Gymraeg mewn rhai adrannau neu ddewis cymysgedd dwyieithog o fodiwlau cyfrwng-Cymraeg a chyfrwng-Saesneg mewn adrannau eraill.

2.53 Mae'r Brifysgol yn darparu ystod eang o wasanaethau i alluogi datblygiad a chyrhaeddiad myfyrwyr, a byddai hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy adolygu tystiolaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol a thrwy holi'r staff a myfyrwyr.

2.54 Mae'r Amcanion Allweddol y gellir eu cyflawni gan y Bwrdd Academiaidd a'i is-bwyllgorau yn 2015-16 yn ychwanegol i'r materion sefydlog a drafodir ym mhob pwyllgor, ac maent yn alinio'n agos at y CLIM. Roedd gan is-bwyllgorau'r Bwrdd Academiaidd gyfle i adolygu eu targedau ar gyfer 2015-16 o ran cymorth i fyfyrwyr cyn mynd ati i gymeradwyo'r Amcanion Allweddol yn ffurfiol. Mae'r rhestr hefyd yn nodi ble mae'r cyfrifoldeb am dargedau wedi'i leoli o fewn strwythur y pwyllgorau academiaidd. Mae'r targedau'n alinio'n agos â'r Strategaeth Ddysgu ac Addysgu a'r CLIM, ac maent yn rhoi sylw penodol i bresenoldeb, dargadwedd a chyrhaeddiad myfyrwyr, yn ogystal â dulliau asesu. Mae cymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ar gampws Mawrисиws bellach hefyd yn rhan o gylch gorchwyl y pwyllgor. Mae'r targedau'n darparu fframwaith effeithiol ar gyfer monitro cynnydd ac ymgysylltiad â'r CLIM ar lefel y Brifysgol.

2.55 Mae'r Brifysgol wedi bod yn gwerthuso ei threfniadau sefydlu drwy weithgor yr Wythnos Groeso, sy'n defnyddio adborth wedi'i ddarparu gan fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn ystod wythnosau cynnar y sesiwn academiaidd. Mae'r staff yn gofalu eu bod yn darparu trefniadau wedi'u teilwra ar gyfer y gwahanol fathau o fyfyrwyr y maent yn eu sefydlu ac ar gyfer gwahanol anghenion y myfyrwyr. Mae gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i fyfyrwyr parthed y rhaglen groeso, ac mae myfyrwyr rhyngwladol yn cael defod groeso a pheccyn croeso i'w helpu i ymgysylltu â bywyd yn y Brifysgol.

2.56 Mae adolygiad o drefniadau tiwtora personol ar y gweill, ac mae gweithgor sy'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cymorth i Fyfyrwyr yn bwriadu edrych ar fesurau i wella cyrhaeddiad myfyrwyr drwy diwtoriaid personol. Roedd myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu i gyd yn ymwybodol o'r system diwtora personol ac yn gadarnhaol ynglŷn â'r gefnogaeth roeddent yn ei derbyn.

2.57 Mae Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn darparu ystod effeithiol o wasanaethau drwy staff cymwysedig yn y meysydd priodol. Tynnodd myfyrwyr sylw at y ffaith y gallai

anawsterau godi weithiau wrth geisio mynediad prydlon i gwnsela gan y Gwasanaeth Lles. Dysgodd y tîm adolygu fod adnoddau staffio yn y maes hwn dan bwysedd oherwydd problemau recriwtio, ac nad oedd cwnsela drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael pan gynhaliwyd yr adolygiad, y tu hwnt i'r hyn roedd yr awdurdod lleol yn ei gynnig.

2.58 Mae'r Gwasanaeth Hygyrchedd yn cynnal dau gynllun mentora arbenigol, un ar gyfer myfyrwyr anabl a'r llall wedi'i anelu'n bennaf at gynorthwyo trosglwyddiad myfyrwyr i'w blwyddyn gyntaf o astudio. Derbyniodd y ddau gynllun gydnabyddiaeth yn 2015 gan y Sefydliad Mentora a Chyfeillio. Mae'r gwasanaeth yn cynnal arolwg blynyddol o'i ddefnyddwyr sy'n darparu adlewyrchiad cadarnhaol iawn o'i ddarpariaeth, er ei bod yn aneglur pa ddefnydd pellach a wneir o'r data. Yn arbennig, nid yw adroddiad blynyddol Gwasanaethau Myfyrwyr yn adlewyrchu'n benodol ar y data hwn ar ddefnyddwyr, sy'n cynnwys adborth gwerthfawr gan ddefnyddwyr gan gynnwys, er enghraifft, sylwadau ar gost y gwasanaeth profion dyslecsia i fyfyrwyr.

2.59 Mae cylch gorchwyl y gweithgor ar newidiadau yn y LFA yn cynnwys ystyried oblygiadau newidiadau arfaethedig i fyfyrwyr sy'n wreiddiol o Loegr. Mae'n canolbwyntio ar ddylunio'r cwricwlwm i leddfu effeithiau'r newidiadau hyn, gan gynnwys gorfodi cipio darlithoedd ar gyfer myfyrwyr israddedig o fis Medi 2016 ymlaen.

2.60 Mae adrannau'n monitro presenoldeb myfyrwyr. Ers cyflwyno'r system gardiau electronig ym Medi 2015 i gofnodi presenoldeb mewn dosbarthiadau, mae mwy o ddata ar gael iddynt erbyn hyn. Mae gweithgor dargadwedd myfyrwyr yn gweithio i ddarparu dull cyson, wedi'i ddogfennu, o fonitro ymgysylltu. Un elfen allweddol o'r gwaith yw dwyn sylw at fyfyrwyr sydd mewn peryg o dynnu allan yn gynnar yn y gylchred academiaidd, a'u targedu ar gyfer mwy o ofal bugeiliol. Dangosodd diweddariad ar ddargadwedd, ar sail data, a gynhyrchwyd yn Rhagfyr 2015 effeithiolrwydd y system o ran deall nodweddion myfyrwyr sydd mewn peryg o adael eu cyrsiau'n gynnar o fewn i'w setiau data. Yn ychwanegol i'r gwaith hwn, mae'r Bwrdd Academiaidd wedi ymgynghori ar gyflwyno polisi presenoldeb cyffredin ar draws y Brifysgol ar gyfer 2016-17.

2.61 Mae'r Brifysgol yn darparu cyfres effeithiol o wasanaethau cymorth er mwyn hybu datblygiad a chyrhaeddiad myfyrwyr. Mae ganddi brosesau effeithiol er mwyn sicrhau ei bod yn trin myfyrwyr yn gyfartal ac yn eu hysbysu ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael cyn ac yn ystod y broses sefydlu, gyda chanllawiau pellach ar gael yn y llawlyfrau ac ar-lein. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B5): Mae darparwyr addysg uwch yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys yr holl myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn bartneriaid yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad addysgol.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B5: Ymgysylltiad â'r Myfyrwyr**

#### **Y canfyddiadau**

2.62 Mae Strategaeth Ddysgu ac Addysgu'r Brifysgol yn ystyried cynrychiolaeth myfyrwyr i fod yn hanfodol ac mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cynnwys manylion y trefniadau cynrychiolaeth. Mae myfyrwyr yn eistedd ar y mwyafrif o bwyllgorau ar bob lefel yn strwythur pwyllgorau'r Brifysgol, gan gynnwys y Bwrdd Academaidd a'r PSA. Mae'r Cydlynnydd Cynrychiolwyr a Phrofiad Myfyrwyr yn hyfforddi cynrychiolwyr myfyrwyr ac yn darparu cefnogaeth barhaus, gan gynnwys hyfforddiant ychwanegol.

2.63 Mae'r Brifysgol yn casglu adborth gan gorff y myfyrwyr drwy'r ACF, ac Arolygon o Brofiad Ôl-raddedigion a Addysgir ac Ymchwil (ABÔA ac ABÔY). Mae canlyniadau'r ACF yn adlewyrchu boddhad myfyrwyr â'r addysg uwch a ddarperir iddynt; mae 86 y cant yn fodlon â'r addysgu ar eu cwrs. Mae athrofeydd yn datblygu cynlluniau gweithredu mewn ymateb i ganlyniadau'r ACF, ac yn cynnwys manylion o'r staff sy'n gyfrifol a'r dyddiadau ar gyfer eu cyflawni. Mae'r Brifysgol yn trafod canlyniadau'r ACF a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn y PSA. Mae'r Brifysgol yn rhoi gwybod i'r staff am werth a phwysigrwydd adborth myfyrwyr, yn ogystal â'r berthynas rhwng yr ACF a'r CLIM.

2.64 Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno menter Dwedwch Wrthym Nawr (DWN), sy'n cynnwys arolygon yng nghanol modiwlau, ac mae'n parhau i ddefnyddio arolygon ar-lein ar ddiwedd modiwlau. Mae gan y Brifysgol wefan Dwedoch Chi, Gwnaethon Ni, er mwyn cyfathrebu'r hyn mae'n ei wneud mewn ymateb i adborth myfyrwyr. Mae gan y fenter ddau aelod staff penodol. Mae llawlyfrau'n rhoi gwybod i fyfyrwyr am argaeledd Pwyllgorau Ymgynghori Staff-Myfyrwyr (PYSM) o fewn eu hadrannau.

2.65 Mae gan y Brifysgol Siarter Myfyrwyr, sy'n cynnwys y goblygiadau a'r disgwyliadau sy'n perthyn i'r Brifysgol a'i myfyrwyr. Mae llythyron cynnig at ymgeiswyr llwyddiannus, ynghyd â'r broses sefydlu, yn rhoi gwybod i fyfyrwyr am Siarter y Myfyrwyr.

2.66 Byddai'r polisïau a'r prosesau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Edrychodd y tîm adolygu'n fanwl ar y Disgwyliad hwn drwy gwrdd â chyfarwyddwyr athrofeydd a phenaethiaid adrannau, myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, myfyrwyr ac aelodau staff ar gampws Mawrisiws, staff academaidd, a staff cymorth proffesiynol. Bu hefyd yn adolygu cofnodion cyfarfodydd a fynychwyd gan fyfyrwyr parthed cyfranogiad ac effaith myfyrwyr.

2.67 Mae myfyrwyr ar gampws Mawrisiws a gyfarfu â'r tîm adolygu'n darparu adborth drwy ystod o fecanweithiau, megis cyswllt uniongyrchol â'r staff drwy adolygiadau o fodiwlau. Lle mae nifer fach o fyfyrwyr yn dilyn rhaglenni, fel yn achos campws Mawrisiws, mae'r staff yn gwahodd pob myfyriwr i fynychu cyfarfodydd y PYSM ac mae cyrsiau mwy yn penodi cynrychiolwyr myfyrwyr. Mae llawlyfr myfyrwyr Mawrisiws yn rhoi gwybod i fyfyrwyr am rôl Undeb y Myfyrwyr a'r PYSM. Nododd myfyrwyr bod y staff yn barod i ymateb i'w hanghenion, a chadarnhaodd y staff eu bod yn ymwybodol o bryderon myfyrwyr o ran trafniadaeth a llety, a'u bod yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r Brifysgol yn cynorthwyo ymgysylltiad Undeb y Myfyrwyr â myfyrwyr ar gampws Mawrisiws.

2.68 Mae gan fenter DWN weithgor i gydlynu ei gweithgareddau ac mae'n adrodd yn ôl i'r PGDA. Mae'r Brifysgol yn cyfathrebu'r fenter i fyfyrwyr drwy dafleuni ac ar-lein. Roedd y myfyrwyr a'r aelodau staff a gyfarfu â'r tîm adolygu'n gadarnhaol yn glŷn â sut mae'r cynllun

wedi caniatáu i'r Brifysgol ymateb yn hyblyg i adborth myfyrwyr. Canfu'r tîm adolygu fod y cynlluniau gweithredu a ddeilliodd o adborth DWN yn gadarn a'u bod yn cael eu monitro'n effeithiol, a bod myfyrwyr yn cael gwybod am y canlyniadau drwy'r cynllun Dwedoch Chi, Gwnaethon Ni. Darparodd myfyrwyr enghreifftiau o'r Brifysgol yn ymateb i farn myfyrwyr, gyda phwyslais penodol ar effaith DWN: un enghraifft oedd ymestyn oriau agor y llyfrgell mewn ymateb i anghenion myfyrwyr.

2.69 Mae Undeb y Myfyrwyr yn hyfforddi cynrychiolwyr myfyrwyr, sy'n ennyn diddordeb y myfyrwyr maent yn eu cynrychioli ac yn adrodd yn ôl iddynt ar benderfyniadau cyfarfodydd PYSM. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn aelodau o'r mwyafrif o weithgorau'r Brifysgol, gan gynnwys gweithgor DWN, y gweithgor gwella tiwtoriaid personol, y gweithgor datblygu sgiliau a dysgu, a'r Grŵp Gweithredu ar Gyflogadwyedd. Ynghyd â hyn, mae gan fyfyrwyr aelodaeth o bwyllgorau'r Brifysgol megis y PSA, y Bwrdd Academaidd, y PGDA a'r PDChA. Serch hynny, mae gan y Brifysgol weithgorau eraill sy'n ymwneud â sicrwydd a gwella ansawdd heb gynrychiolaeth myfyrwyr, er enghraifft y gweithgor ACAU, grŵp yr Wythnos Groeso / Matriciweiddio, neu ar hyn o bryd, gweithgor gwella'r ddarpariaeth a phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfarfu'r tîm adolygu â myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymgysylltiad myfyrwyr ar lefel athrofeydd, ac sy'n teimlo bod yr athrofeydd yn rhoi sylw i'w barn, ond bod dyfnder yr ymdriniaeth yn amrywio ar draws y Brifysgol. Ar hyn o bryd, er bod cynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd ac ar amryw o bwyllgorau eraill ar lefel y Brifysgol, nid yw'r Brifysgol mewn gwirionedd yn galluogi myfyrwyr i ymgysylltu fel partneriaid ym mhob gweithgaredd sy'n ymwneud â sicrwydd ansawdd, gan gynnwys proses gynllunio a chymeradwyo rhaglenni a'r broses gyfnodol o adolygu rhaglenni. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** y dylai'r Brifysgol sicrhau cyfranogiad systemataidd myfyrwyr fel partneriaid wrth gymeradwyo ac adolygu rhaglenni, yn ogystal â gwella profiad myfyrwyr.

2.70 Adolygwyd cylch gorchwyl y PYSM gan y tîm, a chanfu eu bod yn gadarn, gan roi cyfle i fyfyrwyr leisio eu barn ar faterion gosod amserlenni, cyflogadwyedd a threfniadau academaidd. Roedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu o'r farn bod y PYSM yn ddull effeithiol o ymgysylltu. Mae'r PDA yn trafod materion a chyfranogaeth yn y PYSM, gan ddangos bod barn myfyrwyr a fynegir yn y PYSM yn cael ei chlywed ar lefel uwch bwyllgorau. Mae'r Archwiliad Ansawdd Adran yn cynnwys ystyriaeth o'r PYSM, ac mae'r Brifysgol yn disgwyl i adrannau adlewyrchu ar eu PYSM yn eu dogfen hunan-werthuso.

2.71 Yng ngoleuni'r ystod o fecanweithiau, gan gynnwys DWN a'r defnydd effeithiol o Undeb y Myfyrwyr o ran hyfforddiant a pharatoi cynrychiolwyr myfyrwyr, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn cymryd camau bwriadol i ennyn diddordeb pob myfyriwr, yn unigol ac ar y cyd, wrth sicrhau a gwella eu profiad addysgol. Serch hynny, mae risg ganolig yn bodoli o ran cyflawni'r Disgwyliad, oherwydd diffyg cyfranogiad myfyrwyr mewn rhai meysydd o sicrwydd ansawdd a gwelliant. Mae hyn yn dangos, er bod y Brifysgol wedi gweithredu ei gweithdrefnau sicrwydd ansawdd presennol yn briodol, mae angen adolygu'r gweithdrefnau hynny er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys myfyrwyr ym mhob agwedd o sicrwydd ansawdd a gwelliant yn y dyfodol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg sy'n gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Canolig**



**Disgwyliad (B6): Mae darparwyr addysg uwch yn gweithredu prosesau asesu sy'n gyfiawn, dilys a dibynadwy, gan gynnwys y rheini ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, sy'n galluogi pob myfyriwr i arddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y credyd neu'r cymhwyster sy'n cael ei geisio.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B6: Asesu Myfyryr a Chydnabod Dysgu Blaenorol**

#### **Y canfyddiadau**

2.72 Mae Llawlyfr Ansawdd Academiaidd y Brifysgol yn rhoi trosolwg o bolisiau a gweithdrefnau asesu, yn ogystal â'r arferion a fframwaith reoleiddio arholiadau sy'n perthyn i'r ddarpariaeth israddedig ac ôl-raddedig a addysgir. Mae'r Llawlyfr yn darparu canllawiau ar asesu baich/cywerthedd, gan roi adborth i fyfyrwyr o fewn tair wythnos waith, ac mae gofyn i athrofeydd gyhoeddi meini prawf a bod â pholisiau ar farcio dwbl, marcio di-enw, cymedroli a dulliau o lunio graddfa. Mae gan bob myfyriwr yr hawl i gael ei asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae polisiau a gweithdrefnau'n rheoli amgylchiadau arbennig, apeliadau, a chasglu a throsglwyddo credydau.

2.73 Mae rheoliadau'r Brifysgol yn llywodraethu ei system fodiwlau a chredydau, yn ogystal â chasglu a throsglwyddo credydau ar gyfer dyfarniadau. Gall darpar fyfyrwyr ofyn, fel rhan o'u cais i astudio, i'r Brifysgol ystyried unrhyw gredydau y maent wedi'u hennill o'r blaen, neu o'u dysgu drwy brofiad.

2.74 Gall myfyryr gael gafael ar y Llawlyfr Arholiadau Myfyryr Israddedig, ac mae ôl-raddedigion a addysgir yn derbyn Cod Ymarfer ar gyfer Ôl-raddedigion a Addysgir. Mae'r Brifysgol hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am asesu o fewn manylebau rhaglen, gwybodaeth am fodiwlau ar gael ar-lein, a meini prawf mewn llawlyfrau myfyryr, wedi'u mapio yn erbyn FfCChC a FfCAU. Mae'r staff yn rhoi gwybod i fyfyrwyr o fanylion asesu'r cyrsiau drwy'r RhAD.

2.75 Mae gan y Brifysgol fyrdau arholi dwy-haen ar lefel y Senedd ac athrofa, ac mae newidiadau diweddar i'r nifer o gredydau y caniateir i ymgeisydd eu methu'n cynnwys darpariaeth o ymagwedd fwy cyfiawn a chyson ar draws y Brifysgol at gyflawni canlyniadau dysgu. Mae trefniadau ar gyfer asesu yn cynnwys defnyddio arholwyr allanol drwy system a sefydlwyd (gweler Disgwyliad B7).

2.76 Mae gan y Brifysgol systemau, gweithdrefnau a pholisiau sefydlog ar gyfer asesu, a fyddai'n galluogi'r Disgwyliad i gael ei gyflawni. Ystyriodd y tîm adolygu ddogfennaeth allweddol sy'n ymwneud ag asesu, gan gynnwys rheoliadau, polisiau a chanllawiau, yn ogystal â rhannau perthnasol o ddeunyddiau dilysu, llawlyfrau rhaglen a chofnodion cyfarfodydd sy'n ymwneud ag asesu a chanlyniadau, ac adroddiadau gan arholwyr allanol. Cyfarfu â'r tîm staff sy'n gyfrifol am benderfynu strategaeth a goruchwyllo'r asesu, timau dysgu, a myfyryr.

2.77 Cadarnhaodd y tîm adolygu bod polisiau, rheoliadau a phrosesau asesu'r Brifysgol yn eglur, yn dryloyw ac yn hygyrch i'r gynulleidfa y bwriadwyd hwy ar eu cyfer. Mae'r Brifysgol yn cynnal asesiadau'n ddiogel, ac mae'r system bwrdd arholi dwy-haen eglur a gweithredol yn cynnwys y SAACH yn effeithiol, er mwyn ei galluogi i oruchwyllo rheoliadau ac arferion asesu. Mae'r Cynllun Monitro Blynyddol yn dangos bod timau rhaglen yn adlewyrchu ar ddyfarniadau, cynnydd a dargadwedd.

2.78 Mae'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth gywir bellach ar asesu drwy lawlyfrau adrannol, er nad oes templed na ffurf gyson o drosglwyddo gwybodaeth am asesu. Canfu'r tîm adolygu anghysondeb yn yr wybodaeth ac arferion sy'n ymwneud ag apeliadau ar draws

adrannau, sy'n peryglu tegwch prosesau sy'n ymwneud ag asesu. Mae hyn yn perthyn i'r argymhelliad dan Ddisgwyliad B9.

2.79 Mae themâu'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr yn cynnwys asesiad ac adborth, ac mae'r Brifysgol wedi sefydlu gweithgor i weithredu e-gyflwyno ac e-adborth. Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu nad oes ganddynt unrhyw bryderon sylweddol ynglŷn â maint yr asesu, ei amserlen na pha mor agos ydy'r asesiadau at ei gilydd. Nododd myfyrwyr y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'u pryderon ynglŷn ag asesu ac adborth, gan gynnwys sefydlu polisi ar gyflwyno gwaith yn hwyr, yr angen am ddarparu adborth i fyfyrwyr o fewn tair wythnos, a'r symudiad at e-gyflwyno. Canfu'r tîm y gall myfyrwyr cyfrwng-Cymraeg ddefnyddio meddalwedd cymharu testun y Brifysgol ond nad yw'r rhyngwyneb ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd.

2.80 Mae myfyrwyr a'r staff yn ymwybodol o'r gydnabyddiaeth a roddir i brosesau dysgu blaenorol. Disgrifiodd y staff a myfyrwyr y gweithgareddau ar gyfer darparu myfyrwyr â'r wybodaeth angenrheidiol i'w helpu i osgoi Arferion Academaidd Annerbyniol (AAA), ac mae staff yn adrodd achosion o'r fath i'r byrddau arholi perthnasol. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cynnwys polisi ar AAA, a adolygwyd yn 2014-15, sy'n ail-ddiffinio AAA. Mae'r Brifysgol wedi canfod cynnydd mewn achosion o AAA yn 2014-15 yng ngoleuni system AAA wedi'i diwygio.

2.81 Mae CDSAA yn darparu cwrs gorfodol ar gyfer pob aelod staff newydd sydd â chyfrifoldebau dysgu ac addysgu â llai na thair blynedd o brofiad addysgu mewn addysg uwch: Tystysgrif Addysgu mewn Addysg Uwch i Raddedigion (TAAUR). Mae cynllun datblygiad proffesiynol parhaus y Brifysgol hefyd yn darparu hyfforddiant/cymorth ychwanegol, megis grwpiau asesu. Nid oes gofyn ar hyn o bryd i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n asesu gael unrhyw hyfforddiant ffurfiol ar gyfer asesu. Mae'r canfyddiad hwn yn cefnogi'r argymhelliad dan Ddisgwyliad B11.

2.82 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg sy'n gysylltiedig yn isel, oherwydd mae'r risg i gyfiawnder sy'n perthyn i ychydig o anghysondebau mewn trefniadau ar gyfer apelïadau gan fyfyrwyr yn cynrychioli angen am ddiweddarau manylion mewn dogfennaeth, lle nad yw'r newid yn gofyn am newid strwythurol na gweithdrefnol sylweddol na'n arwain atynt.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

## **Disgwyliad (B7): Mae darparwyr addysg uwch yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B7: Arholi Allanol**

#### **Y canfyddiadau**

2.83 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn disgrifio'r meini prawf ar gyfer arholwyr allanol, a'u rôl, ac yn meincnodi'r rhain yn erbyn y Cod Ansawdd. Mae'r Brifysgol yn penodi arholwyr allanol ar gyfer pob dyfarniad a addysgir, ac mae gofyn iddynt gyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Brifysgol. Mae'r PSA yn cymeradwyo enwebiadau ac estyniadau ar gyfer arholwyr allanol ar gynlluniau a addysgir.

2.84 Mae'r Brifysgol yn cynnig sefydlu arholwyr allanol drwy ddiwrnod briffio blynyddol, lle mae arholwyr yn treulio amser gydag aelodau staff mewn adrannau academaidd i drafod y rhaglenni a'r modiwlau y byddant yn eu goruchwylio. Mae'r sefydlu hefyd yn darparu gwybodaeth am RhAD y Brifysgol, oherwydd gall fod angen i arholwyr ei ddefnyddio i gael mynediad i waith myfyrwyr sydd wedi'i asesu a sylwadau'r cymedrolwyr.

2.85 Mae arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni a addysgir yn cyflwyno eu hadroddiadau o fewn pedair wythnos ar ôl cyfarfodydd y byrddau arholi adrannau neu athrofeydd ym Mehefin a Rhagfyr. Mae'r SAACH yn cael yr adroddiadau hyn, ac mae proses dau gam yn dilyn, sy'n cynnwys ymateb adrannol i'r materion a godwyd yn gyntaf, gydag ymateb ffurfiol i ddilyn sy'n cynnwys themâu cyffredin a all fod wedi dod i'r amlwg wrth ddod â'r adroddiadau ynghyd. Mae adroddiadau gan arholwyr allanol ac ymatebion iddynt yn ffurfio sail uniongyrchol i'r broses fonitro flynyddol. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn aelodau gweithredol o'r pwyllgorau sy'n derbyn adroddiadau ac yn ystyried ymatebion.

2.86 Mae arholwyr allanol ar gyfer graddau ymchwil, ynghyd â'r arholwyr mewnol, yn gwneud dyfarniadau ynglŷn â safon gwaith ymgeiswyr unigol. Mae arholwyr allanol o'r fath yn derbyn rheoliadau perthnasol y Brifysgol, gan gynnwys y Cod Ymarfer Arholwyr Allanol ar gyfer Graddau Ymchwil (a gaiff ei ddisodli gan Adran 6 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd), nodiadau ar gyfer arholwyr allanol a mewnol, a'r ffurflenni canlyniad ac adroddiad arholiadau priodol. Mae gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion gyfrifoldeb am sicrhau bod y sawl a enwebir i fod yn arholwyr allanol ar gyfer graddau ymchwil yn ateb y meini prawf angenrheidiol, gan gynnwys eu bod yn meddu ar wybodaeth ac arbenigedd ym mhwnic yr ymchwil a bod ganddynt brofiad o oruchwylio neu arholi myfyrwyr PhD.

2.87 Mae'r Brifysgol yn rhannu enwau a sefydliadau pob arholwr allanol ar gynlluniau a addysgir â myfyrwyr drwy dudalennau'r adran ar y we; mae eu hadroddiadau ac ymateb yr adran hefyd ar gael i fyfyrwyr drwy'r RhAD.

2.88 Byddai'r system arholi allanol, ynghyd â goruchwylio'r arholi hwnnw, yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Bu'r tîm adolygu wrthi'n adolygu tystiolaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol, gan gynnwys y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, adroddiadau gan arholwyr allanol, dogfennaeth gymeradwyo cynlluniau a chofnodion pwyllgorau perthnasol. Roedd y staff a'r myfyrwyr a holwyd yn ystod cyfarfodydd ffurfiol yn cynnwys y staff dysgu a thiworiaid cyswllt, penaethiaid athrofeydd ac adrannau, a myfyrwyr ar raglenni a addysgir a rhaglenni ymchwil.

2.89 Mae gan y Brifysgol broses effeithiol ar gyfer penodi arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni a addysgir, ac mae hi wedi gwneud newidiadau'n ddiweddar i wella prydlondeb ymhellach. Fel rhan o hyn, mae'r PSA yn cadarnhau penodiad yr arholwyr allanol i gyd ar gyfer pob blwyddyn academaidd yn y mis Mai blaenorol. Mae'r Brifysgol yn darparu diwrnod sefydlu wedi'i drefnu'n dda ar gyfer arholwyr allanol newydd, ynghyd â briffio trylwyr ar y

Brifysgol, ei phrosesau a'i rheoliadau. Mae adborth gan arholwyr yn dwyn sylw at werth yr hyfforddiant a ddarperir.

2.90 Mae'r Brifysgol wedi meincnodi pro formas adroddiadau yn erbyn y Cod Ansawdd, ac mae siart llif eglur o'r prosesau sicrwydd ansawdd ar gyfer monitro blynyddol o gynlluniau a addysgir ac adroddiadau gan arholwyr allanol yn dangos yn glir y ddibyniaeth rhwng adrodd yn ôl a monitro.

2.91 Mae'r broses dau gam ar gyfer ymateb i arholwyr allanol yn cynnwys ystyriaeth i ymatebion i adroddiadau gan adrannau ar lefel athrofeydd. Mae'r cam cyntaf yn galluogi athrofeydd i sicrhau ymateb cyflym i faterion a godir, sydd o fewn eu hawdurdod. Mae pob athrofa wedyn yn paratoi ac yn ystyried crynodebau o'r adroddiadau cyn cyflwyno papur i'r PSA. Yn yr ail gam, mae'r PSA yn ystyried papurau crynodeb yr athrofa ac yn nodi gweithgareddau pellach sydd eu hangen cyn cynhyrchu crynodeb o'i ganfyddiadau ar gyfer y Bwrdd Academaidd. Mae hwn yn dwyn sylw at themâu a materion a godwyd yn yr adroddiadau. Mae'r broses yn effeithiol o ran galluogi'r PSA i sicrhau bod pob pwynt a godir gan arholwyr allanol yn cael sylw ar lefel adrannau neu ar lefel y Brifysgol.

2.92 Ail gam y broses ar gyfer ymateb i ganlyniadau arholwyr allanol yw clawrlythyr oddi wrth y Dirprwy Is-ganghellor ynghyd â chofnodion cyfarfodydd perthnasol y PSA a'r bwrdd academaidd sy'n ystyried crynodebau o adroddiadau gan athrofeydd. Dyma sut mae'r Brifysgol yn rhoi gwybod i arholwyr allanol am y themâu sy'n dod i'r amlwg mewn adroddiadau o bob rhan o'r Brifysgol, ac sydd i bob diben yn dwyn sylw at arwyddocâd eu rôl i'r Brifysgol.

2.93 Mae'r system ar gyfer penodi, sefydlu a gweithio gydag arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni a addysgir a graddau ymchwil yn effeithiol ac yn gadarn. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B8): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd a am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol, rheolaidd a systematig i fonitro ac adolygu rhaglenni.**

**Cod Ansawdd, Pennod B8: Monitro ac Adolygu Rhaglenni**

**Y canfyddiadau**

2.94 Fel y manylir yn fanwl dan Ddisgwyliad A3.3, mae'r Brifysgol wedi mynegi cyfres o egwyddorion sy'n llywodraethu Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Addysgir (MBCA) ac yn fwy diweddar, mae hi wedi datblygu Archwiliadau Perfformiad Athrofa ac Adran (APAA) i gymryd lle Adolygiadau Adrannol a gynhaliwyd yn strwythur blaenorol y cyfadranau. Mae gan y PSA oruchwyliaeth dros adolygiad y rhaglen, fel sydd gan bob PDA athrofa. Mae'r MBCA yn darparu mecanwaith i sicrhau y caiff amcanion rhaglenni eu cyflawni ac i ganfod arfer da, wrth i'r APAA yn ystyried rheolaeth, dysgu, addysgu, sicrwydd ansawdd, gwelliant a thargedau'r athrofeydd.

2.95 Mae'r ddogfennaeth a anfonir yn flynyddol i'r athrofeydd ac sy'n cael ei gosod ar dudalennau gwe'r SAACH ac yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, yn gosod prosesau, rolau a chyfrifoldebau'r MBRA.

2.96 Ar gyfer adolygiad blynyddol pob rhaglen, neu ar gyfer cyfres o raglenni, mae'r Brifysgol yn gorfodi rhaglenni i adlewyrchu ar eu gweithredoedd ers llynedd, dangosyddion ansawdd, gwerthusiadau ac adborth gan fyfyrwyr a'r staff, y farn allanol (arholwyr allanol a chyrrff achredu), gwelliant ac arfer da ac ar unrhyw newidiadau a wnaed i fanyldeb y rhaglenni. Y mae hefyd yn gorfodi adolygiadau blynyddol i greu cynlluniau gweithredu. Mae'r Brifysgol wedi adolygu ei chylch monitro blynyddol cyntaf ers i strwythur yr Athrofeydd gael ei chyflwyno, yng nghyfarfod y PSA yn hydref 2014, a daeth materion i'r amlwg megis amserlen cwblhau'r MBCA ar lefel adrannau ac athrofeydd yn ogystal â diffyg tystiolaeth. Mae'r PSA hefyd wedi canfod datrysiadau i'r materion hyn. Hefyd yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi treialu proses adolygu cyfnodol ar lefel rhaglenni yn 2015 i'w chyflwyno ar draws y Brifysgol yn 2016-17.

2.97 Mae'r APAA yn cynnwys tîm archwilio, a chanddo yn ei blith arbenigwyr pwnc ac aseswr academiaidd allanol, sy'n ymweld â'r adrannau, ac yna â'r athrofeydd, i werthuso eu harferion. Gall myfyrwyr gyfranogi drwy baratoi cyflwyniad myfyrwyr adrannol ac yna byddant yn cyfranogi drwy fynd ar yr ymweliad archwilio ei hun.

2.98 Mae gan y Brifysgol nifer o raglenni a achredir gan CPSRh ac mae hi'n adrodd canlyniadau gweithgaredd y CPSRh i'r Bwrdd Academiaidd.

2.99 Byddai dyluniad adolygiadau o'r adrannau a'r athrofeydd yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Adolygodd y tîm adolygu'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, y canllawiau a'r templedi a ddarperir ar gyfer gweithdrefnau'r adolygiad, enghreifftiau o adolygiadau blynyddol wedi'u cwblhau, yr APAA a dogfennaeth yr adolygiad cyfnodol peilot. Hefyd, darllenodd y tîm eu hadroddiadau eu hunain yn ogystal â chofnodion y pwyllgor perthnasol a chynhaliwyd cyfarfodydd â'r aelodau staff a'r myfyrwyr a oedd yn rhan o'r gweithdrefnau adolygu.

2.100 Mae enghreifftiau o'r adroddiadau MBCA a'r APAA yn dangos ymgysylltiad llawn â'r prosesau ac egwyddor yr adolygiad, gydag arholiad o foddhad myfyrwyr, cyrhaeddiad ac ansawdd cyffredin y rhaglenni. Mae cofnodion y pwyllgorau perthnasol yn darparu tystiolaeth ohonynt yn briodol gan roi goruchwyliaeth o'r adolygiad blynyddol a phrosesau'r APAA.

Mae'r aelodau staff a gyfarfu â'r tîm adolygu yn gwbl ymwybodol o weithdrefnau'r adolygiad ac o brosesau a meini prawf newidiadau bach/mawr ac o ddileu rhaglenni.

2.101 Nododd y tîm adolygu fod myfyrwyr yn cymryd rhan yn y prosesau adolygu drwy aelodaeth o'r PDA ar lefel athrofeydd ac adborth anffurfiol ar gyrsiau. Nid yw myfyrwyr yn cyfranogi'r uniongyrchol ym mhanel adolygiadau blynyddol neu gyfnodol. Mae'r canfyddiad hwn yn cadarnhau'r argymhelliad dan Ddisgwyliad B5.

2.102 Cyn cyflwyno'r APAAau, roedd y Brifysgol yn gweithredu system adolygu rhaglen yn gyfnodol o fewn ei strwythurau cyfadran. Yn 2015-16, ailgyflwynodd y Brifysgol y broses adolygu cyfnodol i gydfynd â'r APAAau ac i ddarparu cyfle gwell i graffu ar bob rhaglen, gan dreialu adolygiad o'r rhaglen Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Mae hyn yn cydnabod y bwch sydd o bosib yn adolygiadau manwl ar lefel rhaglenni ar draws y Brifysgol. Mae'r Brifysgol felly'n bwriadu cyflwyno'r broses hon ar draws y Brifysgol ar gyfer 2016-17. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau'r** camau sy'n cael eu cymryd i weithredu prosesau adolygu achlysurol ffurfiol ar lefel rhaglenni.

2.103 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad wedi'i gyflawni. Mae gweithdrefnau ac arfer y Brifysgol wedi'u dogfennu'n eglur a chânt eu gweithredu'n gywir. Mae'r tîm yn cadarnhau'r weithred a gymerwyd i ailsefydlu'r adolygiad cyfnodol o'r rhaglenni, gan fod hyn yn cynrychioli bod y gweithgaredd wedi'i gwblhau a fydd yn caniatáu i'r Brifysgol gyflawni'r Disgwyliad yn well. O'r herwydd, mae lefel y risg cysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B9): Mae gan ddarparwyr addysg uwch weithdrefnau i ymdrin ag apeliadau academiaidd a chwynion myfyrwyr am ansawdd y cyfleoedd dysgu; mae'r gweithdrefnau hyn yn deg, yn hygyrch ac yn amserol, ac yn galluogi gwelliant.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B9: Apeliadau Academiaidd a Chwynion Myfyrwyr**

#### **Y canfyddiadau**

2.104 Mae'r Brifysgol yn rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr ynglŷn â chwynion ac apeliadau ar-lein ac yn llawlyfrau myfyrwyr ac mae gwybodaeth i'r myfyrwyr ar eu campws yn Mawrisiws ar gael yn llawlyfr myfyrwyr Mawrisiws. Mae'r Brifysgol yn ceisio datrys cwynion mewn modd amserol ac anffurfiol, gan gynghori myfyrwyr i godi'r mater yn gyntaf, lle bo'n briodol, gyda'u tiwtor, eu hadran neu aelod o'r staff academiaidd. Gall myfyrwyr gyfeirio cwynion anacademaidd at y gyfadran neu'r gwasanaeth sydd dan sylw. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'w haelodau staff ddatrys cwynion anffurfiol o fewn 10 niwrnod gwaith a chadw cofnod o'r gŵyn anffurfiol a'i chanlyniad. Pan ddaw cwynion yn ffurfiol, bydd myfyrwyr yn cwblhau ffurflen gwynion sy'n eu cyfeirio at ffynonellau cymorth. Pan dderbynnir cwynion ffurfiol, bydd pennaeth neu gyfarwyddwr yr adran berthnasol yn trefnu cyfweiliadau â'r rheiny sydd ynghlwm yn y cwyn ac yn gwirio'r dystiolaeth cyn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y SAACH. Mae'r Brifysgol yn bwriadu datrys cwynion o fewn chwe wythnos waith, ac os yw'r myfyrwyr o hyd yn anfodlon, cânt ofyn am adolygiad gan Ddirprwy Is-ganghellor.

2.105 Mae'r SAACH yn adrodd ar gwynion ac apeliadau myfyrwyr i'r Bwrdd Academiaidd, â'u diben yw monitro data'r cwynion a'r apeliadau. Mae hi hefyd yn adolygu'r gweithdrefnau a'u heffeithiolrwydd ac yn gwneud argymhellion priodol. Mae gan y Brifysgol enw da o ran penderfyniadau wedi'u cynnal gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA).

2.106 Mae gan y Brifysgol drefniadau ar wahân ar gyfer cwynion ynglŷn â derbyniadau a recriwtio. Caiff darpar fyfyrwyr gysylltu â Chyfarwyddwr y SAACH, sy'n ymateb o fewn pum diwrnod gwaith. Os yw myfyrwyr o hyd yn anfodlon, cânt gysylltu â Dirprwy Is-ganghellor.

2.107 Mae'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag apeliadau ar ei gwefan. Ar ôl cael apêl, mae cofrestrwydd cynorthwyol y SAACH yn gwirio'r ffeithiau gyda'r adran berthnasol cyn galw panel apeliadau sy'n cynnwys pedwar unigolyn, gydag un ohonynt yn gynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr am benderfyniadau'r panel o fewn pum diwrnod gwaith ac ni fydd apeliadau'n cymryd mwy na chwe wythnos. Os yw myfyrwyr o hyd yn anfodlon, cânt ofyn am archwiliad pellach gan Ddirprwy Is-ganghellor.

2.108 Mae gan y Brifysgol weithdrefn apeliadau academiaidd sydd yn arbennig yn berthnasol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a chaiff hon ei mynegi i fyfyrwyr ar-lein a thrwy lawlyfr y goruchwylwyr. Caiff myfyrwyr wneud apeliadau ysgrifenedig i'r SAACH, sydd yn ei thro yn gofyn i'r adrannau perthnasol wirio'r ffeithiau cyn iddi alw panel apeliadau. Caiff myfyrwyr nad ydynt yn fodlon â phenderfyniadau'r panel gyfeirio eu hapêl at Ddirprwy Is-ganghellor ar gyfer adolygiad terfynol. Os yw myfyrwyr o hyd yn anfodlon, cânt gyfeirio eu hapêl at SDA.

2.109 Byddai argaeledd a diwyg y prosesau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn mewn cyfarfodydd â chyfarwyddwyr a phenaethiaid adran, staff academiaidd, staff cymorth proffesiynol a myfyrwyr, a gwerthuswyd dogfennau gan gynnwys gweithdrefnau cwynion ac apeliadau academiaidd y Brifysgol, cofnodion cyfarfodydd y pwyllgorau sy'n goruchwyllo prosesau cwynion ac apeliadau myfyrwyr, a llawlyfrau myfyrwyr.

2.110 Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n hyderus y gallent gael gafael ar wybodaeth ynglŷn â chwynion ac apeliadau pe bai ei hangen arnynt. Dangosodd aelodau'r staff academaidd y cyfarfu'r tîm â nhw eu bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau cwynion ac apeliadau'r Brifysgol a gwnaethant y myfyrwyr yn ymwybodol ohonynt yn ystod eu cyfnod sefydlu a thrwy eu rôl fel tiwtoriaid personol. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cofnodi manylion cwynion anffurfiol ac yn adrodd yn ôl arnynt yn ystod cyfarfodydd adran pan fyddant yn eu datrys.

2.111 Gofynnodd y tîm adolygu am enghreifftiau o gofnodion cwynion ac apeliadau myfyrwyr, a chanfuwyd bod y Brifysgol wedi ymdrin ag achosion yn brydlon ac yn effeithiol. Mae cofnodion y Bwrdd Academaidd yn dangos ei fod yn ystyried materion sy'n perthyn i gwynion ac apeliadau. Aeth y tîm ati i adolygu'r adroddiad ar apeliadau a luniwyd ar gyfer y PGY, a chanfuwyd bod yr un apêl a gyfeiriwyd ato wedi cael ei thrin yn unol â rheoliadau'r Brifysgol.

2.112 Clywodd y tîm adolygu mewn cyfarfodydd fod rhai adrannau'n cynnig cyfle i fyfyrwyr wneud apêl anffurfiol i'r adran cyn cyflwyno apêl drwy weithdrefnau'r Brifysgol. Canfu'r tîm wybodaeth mewn rhai llawlyfrau myfyrwyr fod gan fyfyrwyr yr hawl i gyflwyno cwyn neu apêl ffurfiol i'w hadran os ydynt yn teimlo nad yw'r marc maent wedi ei dderbyn yn deg, a all arwain at y marc yn cael ei newid. Nid yw'r Brifysgol yn darparu'r cyfle hwn i'w holl fyfyrwyr, nac yn eu gwneud yn ymwybodol ohono mewn llawlyfrau ysgolion neu adrannau eraill. Mae'r anghysondeb hwn o ran gwybodaeth yn sail i'r argymhelliad dan Adran 3 yn yr adroddiad hwn. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod ymagwedd gyson at apeliadau academaidd yn cael ei hymarfer o fewn ac ar draws athrofeydd.

2.113 Mae gan y Brifysgol bolisiau digonol sy'n ffurfio sail i'r gweithdrefnau cwynion ac apeliadau, ac mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer gwneud myfyrwyr yn ymwybodol o'r llwybrau at ddatrysiaid sydd ar gael iddynt, ac ar gyfer monitro effeithiolrwydd gweithdrefnau o'r fath. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad wedi'i gyflawni. Mae'r argymhelliad sy'n perthyn i'r cyfleoedd anghyson a ddarperir i fyfyrwyr sy'n apelio yn erbyn eu marciau'n cynrychioli lefel gymhedrol o risg, gan fod y broblem yn gyfyngedig i ran fach o ddarpariaeth y Brifysgol.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Canolig**



**Disgwyliad (B10): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cymryd y cyfrifoldeb pennaf am safonau academiaidd ac am ansawdd y cyfleoedd dysgu, lle bynnag y cânt eu darparu neu bwy bynnag sy'n eu darparu. Mae trefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu gyda seflydau heblaw'r corff dyfarnu graddau wedi'u gweithredu'n gadarn a'u rheoli'n effeithiol.**

**Cod Ansawdd, Pennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill**

**Y canfyddiadau**

2.114 Mae Cynllun Strategol y Brifysgol 2012-17 yn ceisio datblygu mwy o bartneriaethau academiaidd, o fewn y DU a thramor, ac mae Strategaeth Ddysgu ac Addysgu 2012-17 yn cynnwys y thema rhyngwladoli. Mae gan y Brifysgol ar hyn o bryd nifer fach o bartneriaethau gweithredol, ac mae'r gofrestr ddarpariaeth gydweithredol yn cynnwys manylion 12 o gytundebau trosglwyddo â sefydliadau rhyngwladol ac un â'r Brifysgol Agored. Ar hyn o bryd, ni chynigir unrhyw raddau ar y cyd, dwbl na deuol.

2.115 Mae polisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol sy'n perthyn i ddarpariaeth gydweithredol wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd. Mae'r PDRCh, sy'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd Academiaidd, yn cymeradwyo unrhyw ddiweddariadau i'r prosesau, gweithdrefnau a gwybodaeth sy'n perthyn i ddarpariaeth gydweithredol. Mae'r Brifysgol yn gweithio i ddarparu cyfres gyfunol o wybodaeth ar raglenni darpariaeth gydweithredol ar-lein ar gyfer staff, darpar bartneriaid, partneriaid cyfredol a myfyrwyr.

2.116 Mae cam cyntaf cymeradwyaeth gydweithredol yn golygu cwblhau cais am gymeradwyaeth ar lefel athrofeydd. Mae rhestr wirio'n cynorthwyo athrofeydd i gwblhau'r ddogfennaeth angenrheidiol, sy'n cynnwys manylu ar sut mae cynnig yn gweddu i Gynllun Strategol yr athrofa a'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn gofyn am ffurflenni asesiad risg wedi'u cwblhau ar gyfer partneriaethau sy'n cynnwys trefniadau rhyddfrait, graddau ar y cyd a dilysu fel rhan o'r broses ddiwydrwydd. Mae'r broses newydd ar gyfer cymeradwyo partneriaid yn gofyn am gymeradwyaeth gan y PDRCh a'r Bwrdd Academiaidd cyn i'r Brifysgol arwyddo memorandwm cytundeb. Mae gan y Brifysgol weithdrefn ar wahân ar gyfer rhoi terfyn ar bartneriaethau.

2.117 Yn achos rhaglenni a addysgir, sy'n arwain at ddyfarniad credyd gan y Brifysgol, mae partneriaid yn dilyn polisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol parthed asesu. Mae'r Brifysgol yn cadw ei chyfrifoldeb am gymeradwyo ac, mewn rhai achosion, darparu staff cymwysedig i gyflwyno neu i gynorthwyo â rhaglen gydweithredol. Gan ddibynnu ar natur y cytundeb, gall byrddau rhaglenni ar y cyd sy'n adrodd yn ôl i'r PDRCh oruchwylio'r bartneriaeth. Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno Gwerthusiad Perfformiad Partneriaid i sicrhau llywodraethiant ac addasrwydd cyffredinol partneriaid sy'n ymwneud â chyflwyno rhaglenni rhyddfrait neu rai wedi'u dilysu neu weithgareddau ar gampysau cangen.

2.118 Sefydlodd y Brifysgol Fforwm Rhyngwladol i hwyluso ei chynllun rhyngwladoli, gyda chynrychiolwyr o bob athrofa, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Swyddfa Ryngwladol. Mae'r Fforwm yn trafod y gweithgaredd cyfredol ac at y dyfodol ym mhob marchnad, ac yn rhannu gwybodaeth am y farchnad ac arferion gorau ar gyfer ymagwedd wedi'i chydlynu at gynlluniau rhyngwladoli'r Brifysgol.

2.119 Y Brifysgol yn unig sydd ag awdurdod dros gyflwyno tystysgrifiau a thrawsysgrifau sy'n perthyn i raglenni astudio a gyflwynir drwy bartneriaid cydweithredol. Mae'r Brifysgol yn darparu canllawiau i'r staff ar yr wybodaeth y mae angen ei chynnwys ar dystysgrifau a thrawsysgrifau ar gyfer rhaglenni cydweithredol.

2.120 Mae athrofeydd yn rheoli trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd cyfleoedd dysgu a ddarperir gan yr athrofeydd sy'n eu cynnal. Yna maent yn eu cymeradwyo yn ystod prosesau cymeradwyo modiwl a rhaglen yn yr achos cyntaf, ac yn eu monitro drwy'r broses Monitro Blynyddol ar gyfer Cynlluniau a Addysgir (MBCA). Ar wahân i hyn, mae gan y PDRCh rôl gymeradwyo cynigion ar gyfer cyfnewid myfyrwyr ar sail ffurflenni cyfiawnhau trefniadau cyfnewid o'r fath. Mae gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd Dîm Lleoliad Gwaith ac Ymgysylltu â Chyflogwyr, sy'n cynorthwyo athrofeydd wrth sefydlu lleoliadau gwaith.

2.121 Byddai'r trefniadau uchod ar gyfer gweithio gyda mudiadau eraill yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Wrth ystyried y Disgwyliad hwn, rhoddodd y tîm adolygu sylw manwl i ddogfennaeth berthnasol, gan gynnwys strategaethau, y canllawiau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu'r ddarpariaeth gydweithredol, a chofnodion pwyllgorau sy'n derbyn adroddiadau ar bartneriaid, ac yn cymeradwyo cyrsiau a phartneriaethau. Hefyd cynhaliodd y tîm adolygu drafodaethau â detholiad o aelodau staff y Brifysgol, yn ogystal â staff a myfyrwyr o gampws Mawrisiws.

2.122 Mae partneriaethau cyfredol y Brifysgol yn y DU yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig uwchradd dan nawdd Canolfan Addysgu Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor. Mae'r rhaglen hefyd yn agored i archwiliad gan Estyn. Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithio'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrth ddatblygu'r ddarpariaeth gyfrwng-Cymraeg. Mae'r Brifysgol wedi datblygu trefniant rhyddfrint â Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria ar gyfer cyflwyno Gradd Sylfaenol ran amser mewn Amaeth. Y nod yw mynd i'r afael â'r bwlch yn narpariaeth y pwnc hwn ar sail ran amser yng Ngogledd Cymru. Mae'r Brifysgol yn cymeradwyo modiwlau cydweithredol drwy'r broses gyffredin ar gyfer cymeradwyo, fel yr amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, ac mae ganddi gytundebau â phartneriaid cydweithredol ar gyfer modiwlau unigol. Cadarnhaodd cyfarfodydd â'r staff, o ran lleoliadau gwaith ar gyfer myfyrwyr, fod myfyrwyr yn gyfrifol am ddod o hyd i'w lleoliadau eu hunain, ond fod ganddynt oruchwyliwr yn y Brifysgol sy'n bwynt cyswllt iddynt pe bai unrhyw anawsterau'n codi. Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer yr athrofeydd sy'n cynnal y lleoliadau hyn parthed eu rôl.

2.123 Mae partneriaethau â phrifysgolion tramor yn cynnwys cysylltau ymchwil, trefniadau ar gyfer cyfnewid myfyrwyr ac ysgolion haf. Mae'r broses ar gyfer sefydlu cyfnewid myfyrwyr yn cynnwys cyflwyno ffurflen gyfiawnhau trefniant cyfnewid o'r fath i'r Swyddfa Ryngwladol. Mae cytundebau trosglwyddo'r Brifysgol â sefydliadau tramor yn hwyluso mynediad i ail neu drydedd flwyddyn rhaglenni'r Brifysgol. Mae'r staff yn defnyddio cais am gytundeb trosglwyddo a thempled mapio, er mwyn alinio cwrs y partner â'r un a gynigir gan y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn datblygu cytundebau rhyddfrint eraill, ac mae un ohonynt yn adeiladu ar gytundeb trosglwyddo sy'n bodoli eisoes.

2.124 Agorodd y Brifysgol ei champws tramor cyntaf, ym Mawrisiws, ym mis Hydref 2015; cyfeirir ato fel 'cytundeb campws' lle bo'r Brifysgol yn cadw rheolaeth lawn dros y ddarpariaeth o ddysgu ac addysgu. Er mwyn goruchwyllo'r trefniant, mae'r Brifysgol wedi sefydlu Pwyllgor Rheolaeth Academaidd ar y campws, sy'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd Academaidd. Mae'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau staff ar gampws Mawrisiws yn adlewyrchu'r hyn a weithredir ar y campws yn y DU. Mae system diwtoriaid cyswllt yn cynorthwyo'r staff sy'n addysgu ym Mawrisiws ac mae'r aelodau staff sydd fel arfer yn gweithio yn y DU hefyd yn teithio i Fawrisiws i addysgu. Mae'r un systemau sicrwydd ansawdd yn gweithredu ar y campws cangen, ac mae'r un rheolau, rheoliadau a phrosesau'n berthnasol i fyfyrwyr. Mae staff y Brifysgol ac arholwyr allanol yn goruchwyllo safonau er mwyn sicrhau cymaroldeb â myfyrwyr sy'n astudio yn y DU. Mae Deon a Rheolwr Sicrwydd a Gwella Ansawdd, wedi'u seondio o'r Brifysgol, yn rheoli campws Mawrisiws, ac mae Llawlyfr Gweithredu'n sail i'w gwaith. Mae myfyrwyr ar gampws Mawrisiws yn derbyn graddau a thystysgrifau'r Brifysgol pan fyddant yn cwblhau eu hastudiaethau. Cynhaliodd y

tîm adolygu gyfarfodydd â'r staff a oedd yn ymwneud â champws Mawrisiws a chanfuwyd bod y prosesau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith yn sicrhau safonau ac ansawdd. Gall myfyrwyr ar y campws gael mynediad o bell i Wasanaethau Cymorth i Fyfirwyr y Brifysgol. Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn defnyddio gwasanaethau lleol ar gyfer cymorth i fyfirwyr oherwydd y nifer fach o fyfirwyr. Hefyd cynhaliodd y tîm adolygu drafodaethau â myfyrwyr ar gampws Mawrisiws a chanfuwyd eu bod yn fodlon iawn ag ansawdd y ddarpariaeth addysg. Codwyd rhai problemau o ran llety a thrafnidiaeth gan fyfirwyr Mawrisiws, ac mae'r Brifysgol yn mynd i'r afael â'r rhain. Cynhelir Gwerthusiad Perfformiad Partner cyntaf y Brifysgol ar gyfer campws Mawrisiws yn ystod haf 2016.

2.125 Mae'r Brifysgol yn cynnal goruchwyliaeth o'r safonau a'r ansawdd academiaidd yn ei sefydliadau partner drwy wahanol fesurau, gan ddibynnu ar y math o drefniant. Gall y rhain gynnwys ymweliadau â'r mudiad partner gan diwtoriaid cyswllt, gweithdrefnau safonol y Brifysgol ar gyfer monitro blynyddol o raglenni a addysgir, gweithdrefnau arholi allanol a gwerthusiadau o berfformiad partneriaid. Canfu'r tîm adolygu bod y trefniadau hyn yn galluogi'r Brifysgol i gynnal safonau academiaidd a darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd da.

2.126 Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd gweithdrefnau cymeradwyo a monitro llym. Mae cofnodion yn dangos bod y PDRCh yn craffu ar gynigion ac yn gwneud argymhellion ar gyfer cymeradwyo gan y Bwrdd Academiaidd. Mae'r PDRCh hefyd yn ymgymryd ag adolygiadau o gytundebau a memoranda dealltwriaeth.

2.127 Mae gan y Brifysgol fframwaith priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheolaeth addysg uwch gydag eraill, ac mae'n cynnal nerth y trefniadau partneriaeth ac yn rheoli risg yn effeithiol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Isel**

**Disgwyliad (B11): Dyfernir graddau ymchwil mewn amgylchedd ymchwil sy'n darparu safonau academiaidd cadarn i wneud gwaith ymchwil a dysgu am agweddau, dulliau, trefnau a phrotocolau ymchwilio. Mae'r amgylchedd hwn yn cynnig y cyfleoedd a'r gefnogaeth o safon uchel i fyfyrwyr y maent eu hangen i sicrhau canlyniadau academiaidd, personol a phroffesiynol llwyddiannus yn eu graddau ymchwil.**

### **Cod Ansawdd, Pennod B11: Graddau Ymchwil**

#### **Y canfyddiadau**

2.128 Mae Ysgol y Graddedigion, sydd wedi'i lleoli o fewn yr Athrofa Addysg, Graddedigion a Datblygu Proffesiynol, yn goruchwylio darpariaeth ôl-raddedig y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys Pennaeth a staff Ysgol y Graddedigion, sy'n trefnu ac yn darparu datblygiad ar gyfer myfyrwyr ymchwil a hyfforddiant ar gyfer ymchwil.

2.129 Mae'r Swyddfa Dderbyn Ôl-raddedigion yn darparu arweiniad ar gyfer derbyn ôl-raddedigion gan adrannau ac mae'n annog y defnydd o gyfweiliadau yn ystod y cam derbyn, gan eu gwneud yn orfodol ar gyfer y rheiny sydd am wneud ymchwil ôl-raddedig. Mae myfyrwyr yn cyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau ymchwil, ac mae'r staff wedyn yn eu barnu ochr yn ochr â'u cymwysterau academiaidd ac unrhyw eirida y gallant ei ddarparu. Rhaid i adrannau gadarnhau, yn ystod y cam hwn, fod ganddynt oruchwylywyr ac adnoddau i gynorthwyo a hwyluso'r prosiect ymchwil. Ar gyfer blwyddyn gyntaf astudiaeth lawn amser, neu o fewn dwy flynedd gyntaf astudiaeth ran amser, mae darpar fyfyrwyr PhD yn ymgymryd â chyfnod prawf, a rhaid iddynt ddangos cynnydd boddhaol er mwyn cofrestru ar gyfer y flwyddyn ganlynol, neu i uwchraddio o MPhil i PhD.

2.130 Ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd ac wrth gychwyn ar yr ail semester, mae'r Brifysgol yn cynnal rhaglen sefydlu ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd ar draws pob adran. Hefyd cynhelir rhaglenni sefydlu penodol yn adrannau'r myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn derbyn y Cod Ymarfer ar gyfer Ôl-raddedigion Ymchwil, sy'n cynnwys manylion ynglŷn â rôl, cyfrifoldebau a disgwyliadau'r myfyrwyr a'r arolygwyr. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am fonitro cynnydd a gweithdrefnau ar gyfer apeliadau, cwynion ac arferion academiaidd annerbyniol.

2.131 Mae llawlyfr ar gyfer arolygwyr hefyd yn rhoi manylion ynglŷn â chyfrifoldebau a disgwyliadau'r arolygwyr, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am asesu anghenion datblygiad myfyrwyr, darllen drafft ysgrifenedig a chynnal gwybodaeth am y pwnc. Mae gan bob myfyriwr ymchwil dîm arolygu sy'n cynnwys o leiaf dau berson, ac mae Ysgol y Graddedigion yn trefnu sesiynau hyfforddi rheolaidd ar gyfer arolygwyr. Mae myfyrwyr yn cyfranogi mewn cyfarfodydd cynnydd ffurfiol yn flynyddol, ac mae cyfarfod y Brifysgol gyfan, dan gadeiryddiaeth Pennaeth Ysgol y Graddedigion, yn ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hyn, megis newidiadau o MPhil i PhD, neu argymhellion i derfynu trefniant astudio ymgeisydd.

2.132 Mae'r Brifysgol yn cynnal vivas yn unol â'i rheoliadau, ac mae angen cadeirydd annibynnol ar gyfer y rhain. Mae dau arholwr, fel arfer un mewnol ac un allanol, yn archwilio traethodau gradd, er bod dau arholwr allanol yn archwilio ymgeiswyr sy'n aelodau staff. Mae Pennaeth Ysgol y Graddedigion yn cymeradwyo penodiad arholwyr.

2.133 Mae'r Brifysgol yn penodi arholwyr allanol yn unol â gweithdrefnau. Fel rhan o'u templed ar gyfer adroddiadau, mae'r Brifysgol yn disgwyl i arholwyr allanol wneud sylwadau ar unrhyw faterion y dylent ddwyn at sylw'r Brifysgol. Mae'r PGY yn gwneud sylwadau ar unrhyw faterion a godir ac yn nodi unrhyw weithredu pellach parthed y rhain.

2.134 Mae'r PGY yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Academiaidd. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys goruchwyllo pob darpariaeth ymchwil yn y Brifysgol ac mae ei aelodaeth yn cynnwys dau gynrychiolydd myfyrwyr. Mae'n derbyn cofnodion o'r Pwyllgor Ymgynghori Myfyrwyr Ymchwil (PYMY) ac adroddiadau cyfarfodydd monitro Ysgol y Gradddedigion. Er mwyn goruchwyllo cynnydd myfyrwyr, mae'r PGY hefyd yn ystyried data megis adroddiadau ar estyniadau a graddfeydd cyflwyno gwaith ar gyfer ymgeiswyr PhD llawn amser, ac unrhyw faterion a godir gan arholwyr allanol. Mae'r PGY yn gofyn i athroffeydd neu'r SAACH wneud sylwadau ar faterion a godir gan arholwyr allanol fel y gall benderfynu a oes angen unrhyw weithredu pellach neu beidio.

2.135 Mae aelodaeth y PYMY yn cynnwys cynrychiolwyr o blith myfyrwyr ac aelodau staff yr athroffeydd a'r adrannau gwasanaeth proffesiynol. Mae'n cwrrd dair gwaith y flwyddyn academiaidd, dan gadeiryddiaeth Pennaeth Ysgol y Gradddedigion. Mae'r cyfarfod yn rhoi Ysgol y Gradddedigion â chyfle i hysbysu myfyrwyr, ceisio eu barn, ac i gynrychiolwyr myfyrwyr godi materion o ddi-ddordeb â'r Brifysgol.

2.136 Mae gan fyfyrwyr ymchwil gynrychiolaeth o fewn adrannau a gallant godi materion o bryder o fewn eu hathrofa eu hunain neu'n uniongyrchol ag Ysgol y Gradddedigion. Gall cynrychiolwyr hefyd godi materion mewn cyfarfod y PYMY. Os nad yw dulliau anffurfiol yn datrys materion o bryder, gall myfyrwyr wneud cwyn ffurfiol yn unol â'r prosesau a ddisgrifir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ôl-radddedigion Ymchwil. Mae'r Cod hefyd yn darparu manylion ynglŷn â sut gall myfyrwyr wneud apêl yn erbyn penderfyniadau anffafriol a wnaed gan bwyllgorau monitro neu fyrddau arholi.

2.137 Mae Ysgol y Gradddedigion yn cynnal Rhaglen Ddatblygu Ymchwilwyr, gan fanteisio ar arbenigedd mewnol ac allanol y Brifysgol. Mae llawlyfr yn darparu manylion o'r rhaglen, sy'n cynnwys sefydlu ac ystod o weithgareddau eraill sy'n datblygu sgiliau ymchwil proffesiynol a throsglwyddadwy. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithdai gradddedigion blynyddol, ynghyd â gweithdy gorfodol ar ymddygiad proffesiynol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn fel rhan o'r rhaglen sefydlu. Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn darparu datblygiad pellach, mewn cydweithrediad ag Ysgol y Gradddedigion, ar bynciau megis rheoli gyrfa, gwneud penderfyniadau a rhwydweithio.

2.138 Gall ôl-radddedigion ymchwil gynorthwyo addysgu israddedig am uchafswm o chwe awr yr wythnos i fyfyrwyr llawn amser. Gall cyfrifoldebau gynnwys marcio ac asesu. Mae'r rhaglen sefydlu'n cyflwyno myfyrwyr i ofnion addysgu, a gall adrannau drefnu gweithdai o fewn meysydd pwnc drwy'r CDSAA. Gall myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig hefyd gyfranogi mewn gweithgareddau datblygu'r staff sy'n arwain at y TAAUR a statws cymrawd yr AAU.

2.139 Byddai natur y prosesau a weithredir i gynorthwyo myfyrwyr gradd ymchwil, a dyfarniad graddau o'r fath, yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy adolygu tystiolaeth gan gynnwys rheoliadau ymchwil, y Cod Ymarfer ar gyfer Ôl-radddedigion Ymchwil, cofnodion o bwyllgorau perthnasol a gwybodaeth am y Rhaglen Ddatblygu Ymchwilwyr. Hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, ynghyd â'r staff academiaidd a oedd yn ymwneud â chynnal a rheoli ymchwil.

2.140 Mae'r Brifysgol yn derbyn myfyrwyr ymchwil yn unol â'r gweithdrefnau a chanllawiau a gyhoeddir. Mae'n gyson o ran gweithredu ei gweithdrefnau eglur ar lefel adrannau drwy staff cymwysedig, a chymerir mesurau i sicrhau cydraddoldeb cyfleoedd ar gyfer ymgeiswyr. Dysgodd y tîm adolygu, er y gellid derbyn myfyrwyr a oedd eisoes yn adnabyddus i adran, yn sgil astudio ar gyfer gradd a addysgir, heb gyfweiliad ffurfiol, mewn gwirionedd, roedd pob myfyriwr a gyfarfu â'r tîm adolygu wedi cael cyfweiliad. Mae'r Brifysgol yn cynnal cyfweiliadau dros y ffôn neu drwy fideo-gynadledda pan nad yw amgylchiadau'n caniatáu cyfarfod wyneb

yn wyneb. Nododd myfyrwyr mai un o'r ffactorau arwyddocaol a ddylanwadodd ar eu penderfyniad i astudio yn Aberystwyth oedd enw da ac arbenigedd y staff.

2.141 Wrth gofrestru, mae myfyrwyr ymchwil yn mynd drwy broses sefydlu ar lefel y Brifysgol, wedi'i threfnu gan Ysgol y Graddedigion i gyflwyno myfyrwyr i fywyd ymchwil yn y Brifysgol, cyn ymgymryd â phroses sefydlu fwy anffurfiol yn eu hadrannau. Mae myfyrwyr sy'n ymuno yng nghanol y flwyddyn academiaidd yn mynd drwy broses sefydlu ffurfiol yn Chwefror neu'n aros am y sesiwn nesaf a gynhelir ym Medi. Roedd nifer o'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a gyfarfu â'r tîm adolygu wedi ymuno ar ganol blwyddyn, ac nid oeddent wedi cael eu sefydlu'n ffurfiol am wythnosau, os nad misoedd, ar ôl iddynt gyrraedd. Nododd myfyrwyr bod y broses sefydlu ffurfiol yn cynnwys trosglwydo cryn lawer o wybodaeth, a hynny dros gyfnod o dair awr. Roedd myfyrwyr o'r farn bod y prosesau sefydlu anffurfiol a gynhelir yn yr adrannau'n amrywio yn eu heffeithiolrwydd, ond yn gyffredinol, fe'u hystyrir yn ddefnyddiol, gan ddarparu myfyrwyr â gwybodaeth werthfawr. Mae myfyrwyr yn ymwybodol o'r Llawlyfr Ymchwil ac maent yn hyderus y byddent yn gwybod ble i gael hyd i wybodaeth bellach ynglŷn ag unrhyw agwedd o'u hastudiaethau. Mae canlyniadau Arolwg o Brofiadau Ôl-raddedigion Ymchwil (ABÔY) y Brifysgol yn awgrymu bod Aberystwyth yn disgyn yn is na meincnodau Cymru mewn amryw o feysydd. Mae hyn yn cynnwys y ffaith mai 46 y cant a oedd yn cytuno bod cyfleoedd i gyfranogi ym mhroses sefydlu'r gymuned ymchwil yn ehangach, ac mai 34 y cant a oedd yn cytuno bod y cymorth ac arweiniad a ddarperir yn briodol. Arweiniodd hyn y tîm i ystyried ymhellach effeithiolrwydd y prosesau sefydlu a gallu myfyrwyr i drochi eu hunain mewn cymuned ymchwil y tu hwnt i'w hadran neu athrofa.

2.142 Canfu'r tîm adolygu bod y llawlyfr ar gyfer goruchwylwyr ddwy flynedd ar ei hôl hi ac roedd y Brifysgol yn ei ddiweddarau pan gynhaliwyd yr adolygiad. Mae timau goruchwylwyr myfyrwyr ymchwil yn cynnwys o leiaf dau o bobl, er nad oes gan y Brifysgol unrhyw un model gosod ar gyfer gweithredu'r timau hyn, ac er enghraifft, gallai'r tîm goruchwylwyr gynnwys arolygydd ychwanegol o fyd diwydiant. Mae'r model ar gyfer cymorth gan diwtor personol hefyd yn amrywio, ac yn aml mae'r tiwtor yn rhywun gwahanol i'r arolygydd. Mae'r sesiynau hyfforddi goruchwylwyr dan arweiniad Ysgol y Graddedigion yn pwysleisio bod angen monitro cynnydd myfyrwyr yn effeithiol. Hefyd nododd myfyrwyr ymchwil o wahanol rannau o'r Brifysgol eu bod mewn cysylltiad aml ac adeiladol â'u goruchwylwyr ar lefel ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys monitro blynyddol a chyfarfodydd cyson i reoli cynnydd. Mae'r myfyrwyr i gyd yn gwbl ymwybodol o'r broses a'r dull o asesu, ac maent yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag amgylchedd ymchwil y Brifysgol.

2.143 Mae PGY y Brifysgol yn gweithredu'n effeithiol, gan ystyried ystod eang o wybodaeth a data. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau o gyfarfodydd monitro Ysgol y Graddedigion, cofnodion cyfarfodydd y PYMY, adroddiadau ar gyflwyniadau ac estyniadau myfyrwyr PhD, a sylwadau a wnaed gan arholwyr allanol at sylw'r Brifysgol, wedi eu cyfuno i ffurfio adroddiad cryno. Er enghraifft, tynnodd un o'r adroddiadau hyn o faterion a godwyd gan arholwyr allanol sylw at fethiannau posib o ran goruchwylwyr a'r posibilrwydd o fethu mewn gweithdrefnau moesegol. Ystyriodd y PGY y materion hyn a gweithredwyd yn briodol. Mae un o amcanion cyfredol y PGY yn golygu ystyried sut i wella graddfeydd cyflwyno traethodau ymchwil.

2.144 Yn ddiweddar, goruchwylodd y PGY adolygiad o'r holl reoliadau sy'n gysylltiedig â graddau ymchwil. Roedd un o'r meysydd a gryfhawyd yn ymwneud â chymhwyster i weithredu fel cadeirydd viva. Bellach, rhaid i bob aelod staff fynychu hyfforddiant cyn cael eu henwebu i fod yn gadeirydd, ac mae Ysgol y Graddedigion yn trefnu sesiynau hyfforddi gydol y flwyddyn 2015-16.

2.145 Mae'r PYMY yn mynd ati i ystyried materion sy'n arwyddocaol i gynnal ymchwil a phrofiad myfyrwyr ymchwil. Er y gall godi materion i'w hystyried yn ffurfiol gan y PGY drwy ei gofnodion, mae'r PYMY yn mynd ati i godi a datrys materion perthnasol yn fwy uniongyrchol,

er enghraifft drwy gydlynw â Gwasanaethau Gwybodaeth parthed tanysgrifiadau i feddalwedd sy'n ymwneud ag ymchwil.

2.146 Mae'r Rhaglen Ddatblygu Ymchwilwyr a gynhelir gan Ysgol y Graddedigion yn cynnwys modiwlau craidd gorfodol a modiwlau dewisol sy'n seiliedig ar gredydau ar gyfer myfyrwyr llawn amser, gydag elfennau dewisol o'r rhaglen ar gael i fyfyrwyr rhan amser. Mae'r rhaglen, a feincnodir yn erbyn y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr, yn cael ei hatgynhyrchu yn llawlyfr Rhaglen Ddatblygu Ymchwilwyr, ynghyd â manylion llawn y rhaglen a'i gofynion. Mae cyfanswm o 25 modiwl sy'n cynnwys credydau ar gael, rhai yn Saesneg a rhai yn Gymraeg, ac mae'r llawlyfr yn cynnwys manylion o hyfforddiant gorfodol a disgwyliadau hyfforddiant. Mae goruchwylwyr yn monitro datblygiad myfyrwyr mewn rhaglenni er mwyn sicrhau ymgysylltiad parhaus. Mae myfyrwyr a'u goruchwylwyr yn nodi'r modiwlau mwyaf priodol. Mae arholwyr allanol a bwrdd astudiaethau'n goruchwyllo'r modiwlau â chredydau hyn, a chaiff y marc terfynol ei gadarnhau gan fyrddau arholi'r Senedd. Gellir datblygu sgiliau ymchwil ymhellach mewn Pecyn Dulliau Ymchwil Uwch sy'n ddewisol ac yn boblogaidd. Mae hwn wedi'i gynllunio i ddarparu hyfforddiant uwch sy'n canolbwyntio ar ystod eang o ddulliau a materion sy'n perthyn i ymchwil ansoddol.

2.147 Mae'r Brifysgol yn cynnal gweithdy gorfodol ar ymddygiad proffesiynol ar ddechrau'r flwyddyn gyntaf, ac yna ar ddechrau'r ail semester fel rhan o'i rhaglen sefydlu ôl-raddedigion. Rhoddir sylw i foesege ymchwil, llên-ladrad, cyfrinachedd, hawlfraint, amddiffyn data, a rhyddid gwybodaeth yn y broses ymchwilio ac ysgrifennu. Mae'r Brifysgol yn ystyried ei bod yn bwysig fod myfyrwyr yn deall y materion hyn yn gynnar yn eu hastudiaethau. Mae pob un o'r myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu wedi elwa o'r hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o foesege ymchwil a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn o fewn y Brifysgol er mwyn ystyried materion moesegol. O'r ail flwyddyn ymlaen, mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cynnig gweithdai i fyfyrwyr ymchwil yn Ysgol y Graddedigion, wedi'u cynllunio i gynorthwyo ac i gyflenwi'r Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr.

2.148 Mae gan ôl-raddedigion ymchwil a gyflogir i gynorthwyo addysgu israddedigion gyfrifoldebau a all gynnwys marcio ac asesu. Mae rhaglen sefydlu'r Brifysgol yn cyflwyno myfyrwyr i ofnion addysgu, ond nid yw'n darparu arweiniad na hyfforddiant o ran addysgu, er y gall adrannau ddarparu hyn. Mae adborth o ABÔY y Brifysgol yn awgrymu nad yw myfyrwyr bob amser yn teimlo eu bod nhw wedi'u paratoi'n iawn, ac nid oedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu wedi derbyn hyfforddiant cyn ymgymryd â chyfrifoldebau addysgu neu asesu. Roedd myfyrwyr yn teimlo nad oeddent yn cael digon o gefnogaeth a bod rhaid iddynt geisio cyngor ac arweiniad ar addysgu, yn arbennig arferion asesu, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'r rôl yn effeithiol. Mae'n bosib i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu'r staff sy'n arwain at y TAAUR, gan ddatblygu sgiliau addysgu ac asesu, ond dewisol yw hyn. Mae Ysgol y Graddedigion yn gweithio gyda CDSAA ar fodiwl newydd a fydd yn arwain at statws Cymrawd Cysylltiedig yr AAU, a gall astudiaeth bellach arwain at statws Cymrawd yr AAU. Roedd y tîm adolygu'n ystyried y ffaith bod hyfforddiant addysgu ac asesu'n ddewisol i fod yn ddiffyg yn natblygiad proffesiynol myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a fydd yn ymgymryd ag addysgu ac/neu asesu. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** y dylai'r Brifysgol sicrhau bod pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig yn cael hyfforddiant priodol cyn ymgymryd ag addysgu ac asesu.

2.149 Er gwaethaf y ffaith nad oes hyfforddiant gorfodol ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i'w paratoi ar gyfer addysgu ac/neu asesu, mae gan y Brifysgol fframwaith effeithiol ar gyfer cynorthwyo ymchwil a myfyrwyr gradd ymchwil, yn ogystal â phrosesau priodol sy'n perthyn i ddyfarnu graddau ymchwil. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

## Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

2.150 Wrth gyrraedd ei ddyfarniad, cymharodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau yn erbyn y meini prawf sydd yn Atodlen 2 yn Llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru.

2.151 Mae'r Brifysgol yn cyflawni pob un o'r 11 o Ddisgwyliadau yn y maes beirniadaeth hwn, naw â lefel isel o risg yn perthyn iddynt a dau â risg canolig. Mae'r tîm adolygu'n gwneud dau argymhelliad mewn ymateb i'r ddau faes sydd â risg canolig yn perthyn iddynt, sy'n ymwneud ag ymgysylltiad annigonol gan fyfyrwyr mewn gweithgareddau sicrwydd, ac anghysondebau yn y cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr apelio yn erbyn eu canlyniadau. Mae'r tîm yn gwneud un argymhelliad pellach mewn ymateb i ddiffyg hyfforddiant gorfodol ar gyfer myfyrwyr ymchwil cyn iddynt fynd ati i addysgu. Nododd y tîm un nodwedd o arfer da, o ran y gefnogaeth bersonol a gynigir i fyfyrwyr cyn cofrestru. Mae'r tîm yn cadarnhau'r camau sy'n cael eu cymryd i weithredu prosesau adolygu achlysurol ffurfiol ar lefel rhaglenni. Nid yw'r ychydig argymhellion parthed y maes beirniadaeth hwn yn gofyn am newid gweithredol na gweithdrefnol mawr.

2.152 Mae'r tîm arolygu yn dod i'r casgliad bod ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.



### 3 Y Feriniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu

**Disgwyliad (C): Mae darparwyr addysg uwch y DU yn cynhyrchu gwybodaeth i'w cynulleidfaoedd targed am yr addysg uwch y maent yn ei chynnig sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.**

#### Cod Ansawdd, Rhan C: Gwybodaeth am Ddarpariaeth Addysg Uwch

##### Y canfyddiadau

3.1 Mae'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth ar gyfer darpar fyfyrwyr, drwy ei gwefan ac yn ei phrosiectws, ar sut i ymgeisio, llety, cyllid, costau ychwanegol a gwasanaethau yn y Brifysgol. Mae'r Adran Farchnata'n derbyn gwybodaeth am bob cwrs gan athrofeydd, ac yn ei adolygu i sicrhau cydymffurfiaid â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Cyfraith Defnyddwyr, a pholisi'r Brifysgol cyn mynd ati i'w chyhoeddi. Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi Set Wybodaeth Ehangach, er nad yw hyn yn un o'r gofynion ffurfiol. Caiff ansawdd yr wybodaeth hon ei sicrhau drwy adolygiad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Recriwtio, a chaiff pob adran y prosiectws ei gwirio gan adrannau academaidd a gwasanaethau i sicrhau cywirdeb a chyfanrwydd. Mae Tîm Gweithredol y Brifysgol yn adolygu'r drafft terfynol o'r prosiectws cyn ei gymeradwyo'n derfynol gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Recriwtio.

3.2 Mae'r Brifysgol yn darparu llawlyfr yn benodol ar gyfer myfyrwyr hŷn, sy'n cynnwys manylion am addysg uwch, cyfleoedd am ddatblygu gyrfa a gwybodaeth am gyrsiau, yn ogystal â gofynion mynediad, cyllido a chynhaliaeth ariannol. Darperir gwybodaeth ar gyfer darpar fyfyrwyr sydd ag anghenion dysgu penodol, ynglŷn â'r cymorth ychwanegol y mae ganddynt hawl iddo, drwy'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.

3.3 Mae'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth i fyfyrwyr cyfredol mewn llawlyfrau, er bod rhai myfyrwyr yn derbyn hyn ar lefel athrofeydd ac eraill yn eu hadran. Darperir ôl-raddedigion ymchwil â gwybodaeth gyffredinol a llawlyfr cod ymarfer wrth gael eu sefydlu. Yr athrofeydd sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth ddiffiniol am raglenni, a rhaid iddynt sicrhau bod y staff yn adolygu'r wybodaeth ac yn nodi newidiadau wrth fonitro'n flynyddol. Mae'r Brifysgol hefyd yn adolygu gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr yn ystod Archwiliadau Perfformiad Athrofeydd ac Adrannau (APAA). Gall aelod staff penodedig ym mhob adran broffesiynol, athrofa ac adran lenwi a diweddarau eu tudalennu ar y we a chadarnhau gwybodaeth. Gall myfyrwyr hefyd gael mynediad i'r gyfres lawn o reoliadau academaidd, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chwynion ac apeliadau, ar wefan y SAACH.

3.4 Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda rhai eithriadau, yn unol ag ymrwymadau'r Brifysgol i'r Gymraeg.

3.5 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn darparu'r staff â'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar gyfer datblygu a chymeradwyo modiwlau, asesu a monitro blynyddol yn ogystal â gwybodaeth am Gyrrff Proffesiynol Statudol a Rheoleiddiol. Gall y staff gael gafael ar wybodaeth ynglŷn â gweithdrefnau sicrwydd ansawdd drwy wefan y SAACH.

3.6 Mae'r Brifysgol yn defnyddio adborth gan fyfyrwyr i ystyried a yw darpariaeth y rhaglenni'n cymharu â disgwyliadau myfyrwyr, ac i gael sicrwydd bod yr wybodaeth sydd ar gael yn addas i'r diben, gan gynnwys sgoriau'r ACF, canlyniadau'r ABÔY a'r ABÔA, ac adborth yn ystod y monitro blynyddol o gynlluniau a addysgir ac adolygiadau modiwlau.

3.7 Pan fyddant wedi cwblhau eu rhaglenni, mae myfyrwyr yn derbyn Cofnod Cyrhaeddiad mewn Addysg Uwch a thrawsysgrif ddwyieithog.

3.8 Mae'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth ar gyfer arholwyr allanol drwy eu llythyr penodi, sy'n eu cyfeirio at y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

3.9 Byddai'r ystod o wybodaeth a'r prosesau ar gyfer rheoli ansawdd y Brifysgol yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad mewn cyfarfodydd â'r staff academaidd, myfyrwyr a staff cymorth, a thrwy edrych ar ddogfennaeth berthnasol, gan gynnwys y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a chofnodion paneli cymeradwyo rhaglenni, yn ogystal â chofnodion o gyfarfodydd.

3.10 Adolygodd y tîm adolygu'r llawlyfr ar gyfer myfyrwyr hŷn, a chanfuwyd ei fod yn cynnwys rhagarweiniad defnyddiol i'r materion hynny a allai fod o bryder i fyfyrwyr hŷn. Yn yr un ffordd, mae'r llawlyfr ymarfer a roddir i fyfyrwyr ymchwil yn cynnwys gwybodaeth gadarn ynglŷn â disgwyliadau myfyrwyr ymchwil, a chadarnhaodd myfyrwyr eu bod yn ei chael yn ddefnyddiol.

3.11 Cadarnhaodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw bod yr wybodaeth a dderbyniwyd ganddynt ynglŷn â'u rhaglenni wedi bod yn ddefnyddiol ac yn gywir, a bod hyn wedi'u paratoi ar gyfer ymuno â'r Brifysgol i ymgymryd â'u hastudiaethau. Roedd y myfyrwyr a holwyd hefyd yn gallu cadarnhau eu bod yn deall y cynnwys, gweithdrefnau asesu a gofynion eu graddau, ar sail yr hyn oedd yn eu llawlyfrau. Mae amryw o lawlyfrau'n cynnwys hypergysylltau at reoliadau diffiniol y Brifysgol a gynhelir gan y SAACH. Canfu'r tîm anghysondebau yn y llawlyfrau a roddir i fyfyrwyr mewn gwahanol athrofeydd. Nid oes gan y Brifysgol isafswm ar gyfer cynnwys llawlyfrau, felly mae myfyrwyr sy'n dilyn gwahanol raglenni yn derbyn llawlyfrau sy'n amrywio o ran maint a manylder. Mae'r Brifysgol yn priodoli hyn i'r amrywiaeth rhwng rhaglenni, gyda rhai llawlyfrau'n cynnwys manylion am deithiau maes, er enghraifft, ac eraill yn disgrifio lleoliadau gwaith sy'n ffurfio rhan o'r cwrs. Mae'r amrywiaeth hon yn ymestyn i wybodaeth ynglŷn ag apeliadau academaidd, gyda rhai adrannau, ond nid pob un ohonynt, yn gwahodd myfyrwyr i gyflwyno apêl anffurfiol. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** y dylai'r Brifysgol sicrhau cysondeb yr wybodaeth graidd a ddarperir i fyfyrwyr mewn llawlyfrau ac ar draws athrofeydd.

3.12 Mae systemau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd gwybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth addysg uwch yn ddigon cadarn, ac mae'r wybodaeth yn gyson ac yn gwbl hygyrch i'r cynulleidfaoedd priodol. Er gwaethaf yr argymhelliad, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg sy'n gysylltiedig yn isel, gan fod amrywioldeb llawlyfrau'n cynrychioli angen am newid neu ddiweddarau manylion mewn dogfennaeth, lle nad yw'r newid yn gofyn am na'n arwain at newid strwythurol, gweithredol na gweithdrefnol sylweddol.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**

**Lefel y risg: Isel**

## Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu: Crynodeb o'r canfyddiadau

3.13 Wrth gyrraedd ei ddyfarniad, cymharodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau yn erbyn y meini prawf sydd yn Atodlen 2 o'r Llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru.

3.14 Mae'r Brifysgol yn cyflawni'r Disgwyliad, gyda lefel isel o risg. Mae'r tîm adolygu'n gwneud un argymhelliad parthed y maes beirniadaeth hwn mewn ymateb i'r anghysondebau rhwng llawlyfrau myfyrwyr. Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag angen i newid neu i ddiweddarau'r manylion mewn dogfennaeth, lle na fydd y newid yn gofyn am newid strwythurol, gweithredol, gweithdrefnol sylweddol nac yn arwain atynt. Ni sylwodd y tîm adolygu ar unrhyw gadarnhad na nodweddion o arfer da parthed y maes beirniadaeth hwn.

3.15 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd yr wybodaeth ynglŷn â chyfleoedd dysgu yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

## 4 Y Feriniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

**Disgwyliad (Gwelliant): Cymerir camau pwrpasol ar lefel y darparwr i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.**

### Y canfyddiadau

4.1 Mae gan y Brifysgol Gynllun Strategol eglur ar gyfer 2012-17 gydag 'addysgu sy'n ysbrydoli' wrth graidd ei haddysg, ynghyd â'i gweledigaeth ar gyfer 'addysgu arloesol a chreadigol, gan y staff sy'n weithredol mewn ymchwil gwreiddiol'. Mae tair thema'n perthyn i Strategaeth Ddysgu ac Addysgu benodol, sef cyfoethogi profiad myfyrwyr, sgiliau a chyflogadwyedd graddedigion ac ehangu mynediad. Mae'r ACF yn darparu'r cynllun hir dymor i weithredu'r Strategaeth, ac mae'n cynnwys manylion am wahanol ffrydiau gwaith byr dymor a hir dymor: gwella ansawdd addysgu israddedigion, adborth, cymorth i fyfyrwyr, dargadwedd a phrofiad y flwyddyn gyntaf.

4.2 Mae'r Adran Gynllunio'n rheoli'r targedau penodol sydd ynghlwm yn yr ACF a dangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol eraill. Mae Pwyllgor Dysgu ac Addysgu pob athrofa'n datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r ACF, sydd wedyn yn cael ei gymeradwyo a'i fonitro gan y PSA. Mae ceinciau gwaith gweithredol sy'n alinio â'r CLIM yn cynnwys ymgyrch DWN, gwella cyrhaeddiad myfyrwyr, adolygiad tiwtoriaid personol, prosiectau dargadwedd, a gwella cyflogadwyedd myfyrwyr. Mae gweithgorau'n bodoli ar gyfer y mentrau hyn, gan adrodd yn ôl i'r Bwrdd Academaidd neu un o'i is-bwyllgorau. Mae ymgyrch DWN wedi cael effaith sylweddol, gan ddarparu gwybodaeth ar lefel athrofeydd ac adrannau, wedi'i alinio â gwerthusiad o fodiwlau.

4.3 Mae gan y Brifysgol nifer o fentrau a buddsoddiadau ym mhrofiad myfyrwyr, sy'n galluogi gweithredu'r Strategaeth Ddysgu ac Addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiad yn y cyfleusterau dysgu ac ystadau; dysgu drwy gymorth technoleg, gan gynnwys gwaith i wella'r RhAD a'r defnydd o gopïo darlithoedd; y defnydd o Wobrau Dysgu Rhagorol, ac Arddangosfa Academi Aber-Bangor i ddatlu arferion gorau; a hwyluso ymhellach e-gyflwyno gwaith cwrs myfyrwyr. Mae gan y Brifysgol drefniadau ar gyfer gwella sgiliau academaidd staff drwy ddefnyddio Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU, cyflwyno'r TAAUR, a chydabod y staff academaidd sy'n addysgu yn y meini prawf ar gyfer dyrchafiad. Mae'r Brifysgol yn cynnal cynhadledd ddysgu ac addysgu bob blwyddyn er mwyn dwyn sylw at addysgu da, ac mae'n dangos cysylltiad â cheinciau gwaith Cyfeiriadau'r Dyfodol.

4.4 Mae'r Brifysgol wedi cynnwys adlewyrchu a gwelliant yn ei phroses sicrwydd ansawdd. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Recriwtio, a'r Pwyllgor Recriwtio a Marchnata, yn dadansoddi ac yn ymateb i ddata ystadegol, gan gynnwys canlyniadau arolygon myfyrwyr a gwybodaeth am brosesau derbyn. Ychwanegir at eu gwaith gan ddadansoddiad y gweithgor dargadwedd o ddata dargadwedd a derbyn. Mae ystod o arolygon myfyrwyr, pwyllgorau ymgynghorol a fforymau'n hwyluso adborth myfyrwyr, yn llunio sail i welliant sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu, gan alluogi cyrhaeddiad myfyrwyr ac asesu. Mae'r prosesau monitro blynyddol ac adolygu achlysurol yn adeiladu ar adborth gan fyfyrwyr ac arholwyr allanol er mwyn nodi gwelliannau i raglenni. Mae'r Bwrdd Academaidd yn gwerthuso ac yn ymateb i adroddiad blynyddol ar gwynion ac apeliadau myfyrwyr. Byddai trefniadau'r Brifysgol ar gyfer gwella ansawdd cyfleoedd dysgu yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni. Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy werthuso dogfennau gan gynnwys strategaethau, yr ACF, strategaethau athrofeydd a chofnodion cyfarfodydd. Hefyd trafododd y tîm adolygu drefniadau ar gyfer gwelliant ag uwch aelodau staff, staff academaidd, staff cymorth proffesiynol a myfyrwyr.

4.5 Mae'r aelodau staff a myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu'n ymwybodol o brif ddulliau gweithredu'r Brifysgol o ran gwelliant. Roedd y staff yn gallu mynegi achosion lle bu i amcanion strategol y Brifysgol gael effaith ar lefel athrofeidd a rhaglenni, er enghraifft effaith dysgu drwy gymorth technoleg a gwella cysondeb mewn ymateb i amgylchiadau lliniarol myfyrwyr mewn asesiadau.

4.6 Mewn ymateb i ganlyniadau'r ACF, mae athrofeidd yn datblygu cynlluniau gweithredu wedi'u cymeradwyo gan y PSA, gyda chynlluniau gweithredu ychwanegol ar gyfer themâu (megis cyflogadwyedd, dysgu drwy gymorth technoleg) gan bennu cyfrifoldebau i uwch aelodau staff yr athrofa. Serch hynny, canfu'r tîm adolygu nad yw strategaethau na chynlluniau gweithredu athrofeidd yn alinio â Strategaeth Ddysgu ac Addysgu'r Brifysgol na'i Chynlluniau Strategol. Er enghraifft, mae'r strategaethau ar lefel y Brifysgol yn gweithredu o 2012 hyd 2017, ond mae sampl o strategaethau dysgu ac addysgu tair athrofa'n gweithredu am gyfnodau gwahanol, sef: 2015-20, 2013-18 a 2014-19. Mae hyn yn creu risg nad yw strategaethau athrofeidd wedi'u halinio, nac yn ymateb i strategaethau'r Brifysgol i'r graddau y gallent fod. Nid oedd rhai aelodau staff yn ymwybodol o'r sbardun strategol y tu ôl i'r CLIM a'r Strategaeth Ddysgu ac Addysgu. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol yn casglu ynghyd ac yn mynegi'n eglur y blaenoriaethau strategol ar gyfer gwella cyfleoedd dysgu ar lefel athrofeidd.

4.7 Mae gan y Brifysgol ymagwedd effeithiol at wella ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn gweithio i wella meysydd allweddol sy'n perthyn i brofiad myfyrwyr, fel y diffinir hwy yn y CLIM, a chaiff y gwelliannau hyn eu rheoli'n effeithiol drwy gynlluniau gweithredu a llywodraethiant gweithgorau. Mae'n amlwg bod y Brifysgol yn cefnogi gweithgareddau a mentrau dysgu ac addysgu, ac mae'n mynd ati i ganfod arferion da a'u rhannu. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni a bod lefel y risg gysylltiedig yn isel.

**Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni**  
**Lefel y risg: Isel**

## Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

4.8 Wrth gyrraedd ei ddyfarniad, cymharodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau yn erbyn y meini prawf sydd yn Atodlen 2 yn Llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru.

4.9 Mae'r Brifysgol yn cyflawni'r Disgwyliad, gyda lefel isel o risg. Mae'r tîm adolygu'n gwneud un argymhelliad parthed y maes beirniadaeth hwn mewn ymateb i anghysondebau rhwng strategaethau'r Brifysgol a rhai'r athrofeydd. Mae'r argymhelliad hwn yn adlewyrchu'r angen i newid neu ddiweddarau manylion mewn dogfennaeth, lle na fydd y newid yn gofyn am newid strwythurol, gweithredol na gweithdrefnol sylweddol nac yn arwain atynt. Ni sylwodd y tîm adolygu ar unrhyw gadarnhad na nodweddion o arfer da parthed y maes beirniadaeth hwn.

4.10 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gwella cyfleoedd dysgu myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

## 5 Sylwadau am Ryngwladoli

### Canfyddiadau

5.1 Mae'r Brifysgol yn datgan bod datblygiad rhyngwladol yn flaenoriaeth yn Amcan 4 o'i Chynllun Strategol, 'Meithrin ein cysylltiadau â'r Byd: adeiladu ar ein henw da rhyngwladol, denu myfyrwyr ac aelodau staff o bedwar ban byd, a chydweithredu â phartneriaid a gydnabyddir yn rhyngwladol'. Mae'r Strategaeth Ddysgu ac Addysgu hefyd yn cynnwys rhyngwladoldeb fel thema: Cyfoethogi Profiad Myfyrwyr

5.2 Mae strategaeth ryngwladol y Brifysgol yn cynnwys canolbwyntio ar ddatblygu cysylltau ymchwil â phrifysgolion tramor, gan gynnwys trefniadau cyfnewid myfyrwyr ac aelodau staff ac ysgolion haf. Yn fwy ffurfiol, mae gan y Brifysgol 12 o gytundebau trosglwyddo â sefydliadau tramor, ac mae wrthi'n datblygu cytundebau rhyddfrait ag un o'r cyrff hyn. Agorodd y Brifysgol ei champws tramor cyntaf, ym Mawrisiws, fis Hydref 2015.

5.3 Mae'r Brifysgol wedi creu Fforwm Rhyngwladol er mwyn galluogi staff y Brifysgol i drafod gweithgareddau rhyngwladol cyfredol a rhai posib at y dyfodol, ac i hwyluso ymagwedd wedi'i chydlynu at amcanion rhyngwladoldeb. Cyfrifoldeb y PDRCh yw goruchwylio'r ddarpariaeth gydweithredol, gan gynnwys partneriaethau rhyngwladol, ac mae'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd Academiaidd.

5.4 Nod y Brifysgol yw cynyddu'n sylweddol nifer y myfyrwyr rhyngwladol sydd ar raglenni gradd y Brifysgol yn y DU. Y Swyddfa Ryngwladol sy'n gyfrifol am farchnata a recriwtio, rheoli asiantau addysg, gweithgareddau partneriaeth, a gwybodaeth am y farchnad. Mae'r Swyddfa Ryngwladol hefyd yn adrodd ar yr hyn mae'r farchnad yn galw amdano er mwyn helpu i sicrhau bod rhaglenni'r Brifysgol yn parhau i ddenu cynulleidfa ryngwladol, ac mae'n cynnal cysylltiad â myfyrwyr rhyngwladol cyn ac yn ystod eu hamser yn y Brifysgol.

5.5 Mae'r Brifysgol hefyd yn ceisio cynyddu'r nifer o'i myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni cyfnewid rhyngwladol. Mae cyfranogiad myfyrwyr yn rhaglenni cyfnewid y Brifysgol, Erasmus+ a'r cynllun Cyfnewid Rhyngwladol, yn parhau i fod yn isel ar tua 4 y cant. Hoffai'r Brifysgol gynyddu'r ffigur hwn i tua 10 y cant o fyfyrwyr; clywodd y tîm adolygu gan y staff ynglŷn â chefnogaeth ar lefel adrannau ac athrofeydd ar gyfer myfyrwyr sy'n ymgymryd â chynlluniau cyfnewid, a mentrau megis Ffair Astudio Dramor.

## Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn arweiniad cyflym i'r termau yn yr adroddiad hwn a all fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr. Rhoddir diffiniadau o dermau gweithredol allweddol hefyd ar dudalennau 27-29 o'r [Llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru](#).

Os oes angen diffiniadau ffurfiol arnoch ar gyfer unrhyw dermau eraill, dylech gyfeirio at yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: [www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality](http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality) (Saesneg yn unig).

Mae esboniadau cyfleus i ddefnyddwyr ar gyfer ystod eang o dermau i'w gweld yn y **Rhestr Termau** ar wefan yr ASA: [www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx](http://www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx).

### Arfer da

Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu ASA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth darparwydd addysg uwch o safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff hwn ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau archwilio ac adolygu'r ASA.

### Canlyniadau dysgu

Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

### Cod Ansawdd

Term byr God Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, sef cyfres o **gyfeirbwyntiau** ledled y DU ar gyfer darparwyr addysg uwch (wedi'u cytuno drwy ymgynghoriad â'r gymuned addysg uwch, a'u cyhoeddi gan yr ASA), sy'n nodi'r [Disgwyliadau](#) mae angen i bob darparwydd eu cyflawni.

### Corff dyfarnu graddau

[Darparwr addysg uwch y DU \(prifysgol\)](#) fel arfer) sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pwerau yma wedi'u cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu dan Adran 76 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu o dan Adran 48 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaidd, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor ASA (mewn ymateb i geisiadau am [bwerau dyfarnu graddau a addysgwr, pwerau dyfarnu graddau ymchwil neu deitl prifysgol](#)).

### Credyd(au)

Ffordd o fesur a chydnabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu **rhaglenni astudio** addysg uwch, wedi'i fynegi fel nifer o gredydau ar lefel benodol.

### Cyfeirbwyntiau

Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

### Cyfleoedd dysgu

Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academiaidd a phersonol, adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

### Datganiad Meincnod Pwnc

Datganiad wedi'i gyhoeddi sy'n gosod allan pa wybodaeth, medrau a sgiliau a ddisgwylir o'r rheiny sy'n graddio ym mhob un o'r prif feysydd pwnc (fel arfer yn berthnasol i [raddau baglor](#)), ac mae'n esbonio beth sy'n rhoi cysondeb a hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.



### **Diffiniad gweithredol**

Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n pennu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

### **Disgwyliadau**

Datganiadau yn y **Cod Ansawdd** sy'n nodi beth mae holl [ddarparwyr addysg uwch](#) y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

### **Dyfarniad**

Cymhwyster, neu gredyd academaidd, wedi'i gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r **canlyniadau dysgu** a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gyrraedd y safonau academaidd a osodir ar gyfer **rhaglen** neu uned astudio.

### **Dyfarniad dwbl neu ddyfarniad deuol**

Rhoi dyfarniadau (a thystysgrifau) ar wahân ar gyfer yr un **rhaglen** gan ddau **gorff dyfarnu graddau** sydd wedi darparu'r rhaglen astudio sy'n arwain atynt ar y cyd. Gweler hefyd **dyfarniad lluosog**.

### **Dyfarniadau lluosog**

Trefniant lle mae tri **chorff dyfarnu graddau** neu fwy yn darparu, gyda'i gilydd, un **rhaglen** (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at **ddyfarniad** ar wahân (a thystysgrif ar wahân) gan bob un o'r cyrff dyfarnu. Mae'r trefniant yr un fath ag ydyw ar gyfer **dyfarniadau dwbl/deuol**, ond gyda thri chorff dyfarnu neu fwy'n cymryd rhan.

### **Dysgu cyfunol**

Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu (gweler [dysgu gyda chymorth technoleg](#)).

### **Dysgu drwy gymorth technoleg (neu e-ddysgu)**

Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

### **Dysgu hyblyg a dosranedig**

[Rhaglen](#) neu [fodiwl](#) nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol. Gweler hefyd dysgu o bell.

Gweler hefyd **dysgu o bell**

### **Dysgu o bell**

Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiworiaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngwyd, mewnrwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu – dysgu 'o bell'.

Gweler hefyd **dysgu cyfunol**

### **e-ddysgu**

Gweler dysgu gyda chymorth technoleg

### **Ehangu cyfranogaeth**

Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

### **Fframwaith**

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

### **Fframwaith cymwysterau addysg uwch**

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwyllir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academiaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer cymwysterau sefydliadau addysg uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

### **Gwelliant**

Y broses y mae [darparwyr addysg uwch](#) yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol yn ein prosesau adolygu.

### **Gwybodaeth gyhoeddus**

Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

### **Manylebau rhaglen**

Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

### **Rhaglen (astudio)**

Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

### **Rhith-amgylchedd Dysgu (RhAD)**

Mewnwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair sy'n rhoi mynediad yn electronig i **gyfleoedd dysgu**. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi'u recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

### **Safonau academiaidd**

Y safonau a osodir gan **gyrff dyfarnu graddau** ac a gynhelir ganddynt ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwyllir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academiaidd trothwy**.

### **Safonau academiaidd trothwy**

Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyrwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **dyfarniad** academiaidd. Mae safonau academiaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y **Fframweithiau** Cymwysterau cenedlaethol a'r **Datganiadau Meincnod Pwnc**.

## **QAA1664 - R4271 - Awst 16**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2016  
Tŷ Southgate, Stryd Southgate, Caerloyw GL1 1UB  
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 029 2048 5963 (Cymraeg) 01452 557 050 (English)  
Gwefan: [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)